

# **Grwpiau Ffocws i Ystyried y Defnydd o'r Gymraeg yn y Sector Preifat (2007)**

Mabis  
Prif Swyddfa  
Parc Gwyddoniaeth  
**Aberystwyth**  
Ceredigion  
SY23 3AH  
01970 636 565  
[aber@mabis.co.uk](mailto:aber@mabis.co.uk)

Mabis  
54a Heol Bute  
**Caerdydd**  
CF10 5AF  
029 20 467 400  
[caerdydd@mabis.co.uk](mailto:caerdydd@mabis.co.uk)

Mabis  
Adeilad Intec  
Parc Menai  
**Bangor**  
Gwynedd  
LL57 4SG  
01248 672 610  
[bangor@mabis.co.uk](mailto:bangor@mabis.co.uk)

Mabis  
Uned 2A  
Ystâd Ddiwydiannol Hendy  
**Hendy**  
Sir Gaerfyrddin  
SA4 0XP  
01792 886 300  
[hendy@mabis.co.uk](mailto:hendy@mabis.co.uk)

Mabis  
Ffordd Caer  
**Yr Wyddgrug**  
Sir y Fflint  
CH7 1EG  
[yrwyddgrug@mabis.co.uk](mailto:yrwyddgrug@mabis.co.uk)

[www.mabis.co.uk](http://www.mabis.co.uk)  
[www.menterabusnes.co.uk](http://www.menterabusnes.co.uk)

## Grwpiau Ffocws i ystyried defnydd o'r Gymraeg yn y Sector Preifat

Adroddiad Terfynol



i



2007

## Cynnwys

---

1. Cefndir .....	4
2. Crynodeb Gweithredol .....	6
2.2. Crynodeb o'r prif themâu ac agweddau amlygwyd yn y grwpiau ffocws .....	6
3. Methodoleg.....	11
4. Y prif themâu a godwyd ynghlwm â chwestiynau'r canllaw trafod ..	13
5. Crynodeb o'r prif themâu ac agweddau amlygwyd yn y grwpiau ffocws .....	28
6. Ystyriaethau Polisi.....	30
7. Awgrymiadau am weithredu pellach.....	35
8. Awgrymiadau ar gyfer ymchwil bellach o safbwynt y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Sector Preifat .....	41
9. Dyfyniadau ac enghreifftiau o ymarfer da .....	42
Atodiad 1 - Canllaw Trafod.....	44
Atodiad 2 - Cofnod llawn o sylwadau bob trafodaeth.....	45

# 1. Cefndir

Comisiynwyd Mabis gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gynnal cyfres o Grwpiau Ffocws gyda busnesau sector preifat er mwyn ystyried y defnydd a wneir o'r Gymraeg o fewn y sector honno.

Pwrpas y gwaith yma yw cyfrannu at sefydlu gwaelodlin ar gyfer mesur datblygiad y defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat. Gwaelodlin yn nhermau agweddau yn hytrach na gwaelodlin ystadegol yw'r bwriad, ac i'w ystyried ochr yn ochr gydag ymchwil pellach a fydd yn rhoi'r waelodlin ystadegol.

Roedd y briff yn nodi'r angen i gynnal grwpiau ffocws yn yr ardaloedd canlynol:

- Llangefni
- Caerfyrddin
- Dinbych
- Aberteifi
- Caerdydd
- Wrecsam
- Llandudno (cais ychwanegol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg)

Yn ogystal, roedd gwahoddiad i Mabis enwi hyd at 3 lleoliad arall gan nodi'r rhesymeg dros hynny.

Penderfynwyd ar yr ardaloedd canlynol:

Grŵp Ychwanegol	Rhesymeg
Pwllheli	Ardal ddaearyddol wahanol - pegwn gogledd gorllewinol Cymru. Ardal gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg iaith-gyntaf. Ymwybyddiaeth o ddadleuon ieithyddol yn sgil datblygiadau'r marina ac ati. Cyfuniad diddorol o fusnesau sy'n gwasanaethu'r boblogaeth leol a nifer uchel o dwristiaid.
Aberystwyth / Aberaeron	Trefi sy'n ffynnu yn economaidd. Nifer o fusnesau newydd yn sefydlu. Nifer uchel o swyddi cyhoeddus ychwanegol ar y gorwel. Nifer o gleientiaid 'Potentia' Menter a Busnes wedi dychwelyd o Gaerdydd i sefydlu busnesau yn y trefi hyn – diddorol gweld eu persbectif at ddefnydd o'r iaith.
Aberhonddu	Ardal ddaearyddol wahanol. Ardal wledig lle nad yw'r Gymraeg mor amlwg yn draddodiadol ond lle mae nifer o fusnesau (di-gymraeg) yn dechrau deffro i fanteision dwyieithrwydd.

Cynhaliwyd yr holl grwpiau ffocws yn ystod mis Mawrth ac Ebrill 2007 ac mae'r adroddiad yma yn cloriannu'r holl sylwadau a dderbyniwyd gan fynychwyr y grwpiau, ac ar sail hynny yn cynnig awgrymiadau pellach o safbwynt:

- Polisi ymarferol a chadarn
- Ymchwil pellach ar y thema hon
- Tystebau ac enghreifftiau o ymarfer da

## **2. Crynodeb Gweithredol**

### **2.1. Cefndir**

Comisiynwyd Mabis gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gynnal cyfres o Grwpiau Ffocws gyda busnesau sector preifat er mwyn ystyried y defnydd a wneir o'r Gymraeg o fewn y sector honno.

Pwrpas y gwaith yma yw cyfrannu at sefydlu gwaelodlin ar gyfer mesur datblygiad y defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat. Gwaelodlin yn nhermau agweddau yn hytrach na gwaelodlin ystadegol yw'r bwriad, ac i'w ystyried ochr yn ochr gydag ymchwil pellach a fydd yn rhoi'r waelodlin ystadegol.

### **2.2. Crynodeb o'r prif themâu ac agweddau amlygwyd yn y grwpiau ffocws**

Mae cydnabyddiaeth eang fod yr iaith Gymraeg yn cynnig mantais fasnachol/economaidd i fusnesau sector preifat.

Defnydd llafar yw'r defnydd mwyaf a wneir o'r iaith o fewn busnesau ar hyn o bryd, sydd yn pwyntio at angen am fesurau penodol i annog defnydd ehangach o'r iaith yn weledol, yn ysgrifenedig ac fel "iaith fusnes".

- 2.2.3 Mae awydd cyffredinol i wneud defnydd ehangach o'r iaith o fewn busnesau ond ar yr un pryd mae diffyg gallu yn creu rhwystredigaeth ac felly mae angen anogaeth a chefnogaeth er mwyn hwyluso hynny ac er mwyn manteisio ar yr ewyllys da.
- 2.2.4 Mae rhai cyflogwyr yn rhoi gwerth ariannol ar sgiliau dwyieithog ac yn fodlon talu premiwm i staff sy'n medru'r Gymraeg.
- 2.2.5 Mae diffyg ymwybyddiaeth ymysg y busnesau ynghylch yr hyn mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill eisoes yn medru ei ddarparu i'w cynorthwyo gyda materion yn ymwneud â'r Gymraeg.
- 2.2.6 Mae diffyg ymwybyddiaeth am ddeunyddiau iaith Gwaith a chryn feirniadaeth am rai o'r deunyddiau - er bod cefnogaeth i'r egwyddor.
- 2.2.7 Dylid targedu pobl ifanc mewn busnes o safbwynt annog defnydd ehangach o'r iaith gan fod mwy ohonynt wedi derbyn addysg Gymraeg a'u bod yn fwy ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd.
- 2.2.8 Dylid targedu busnesau newydd (cyn iddyn nhw ddechrau) o safbwynt darparu cymorth gyda dwyieithrwydd – gan mai dyma pryd mae busnesau yn teimlo fod y pwysau mwyaf arnynt o ran amser ac o ran costau. Dyma hefyd yw'r adeg pryd maent eisiau sefydlu delwedd, cynhyrchu deunyddiau marchnata cychwynnol ac ati.

- 2.2.9 Mae mewnfudwyr a dysgwyr yn ymddangos yn fwy cefnogol i ehangu'r defnydd o'r iaith o fewn eu busnesau na nifer o Gymry nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- 2.2.10 Mae mewnfudwyr a dysgwyr hefyd yn ddihyder ynghylch defnydd 'addas' o'r iaith o fewn eu busnes.
- 2.2.11 Mae rhai sectorau yn draddodiadol llai tebygol o wneud defnydd o'r iaith Gymraeg nac eraill, ac mae angen rhoi ystyriaeth i ble fyddai unrhyw fuddsoddiad yn cael yr effaith mwyaf â'r gwerth gorau am arian.
- 2.2.12 Mae ardaloedd daearyddol yn amrywio o safbwynt y galw am wasanaethau dwyieithog, o ran gallu busnesau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, a'r gefnogaeth sydd ar gael i gynorthwyo busnes sy'n dymuno bod yn fwy dwyieithog.
- 2.2.13 Er bod cefnogaeth eang i ehangu'r defnydd o'r iaith o fewn busnesau a'u bod yn gweld yr iaith fel mantais fasnachol - mae busnesau yn parhau i weld yr iaith fel cost (yn hytrach na buddsoddiad), boed hynny'n arian neu amser.
- 2.2.14 Mae diffyg sgiliau dwyieithrwydd a/neu ddiffyg hyder mewn sgiliau dwyieithrwydd o fewn y busnesau yn llesteirio defnydd ehangach o'r iaith.
- 2.2.15 Nid yw busnesau yn gwybod digon am broffil eu cwsmeriaid o safbwynt darparu gwasanaeth dwyieithog addas a sut mae cwsmeriaid yn ymateb i ddwyieithrwydd.
- 2.2.16 Mae angen mesurau ychwanegol o safbwynt cefnogaeth, gweithredu ac ymchwil er mwyn sicrhau defnydd ehangach o'r Gymraeg o fewn y sector preifat.
- 2.2.17 Mae angen datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu ac mae cyflogwyr angen cymorth i fesur sgiliau Cymraeg gweithwyr a darpar weithwyr yn arbennig wrth recriwtio staff i swyddi ble mae'r Gymraeg yn allweddol.

### **2.3. Rhestr o argymhellion polisi i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn deillio o'r ymchwil grwpiau ffocws:**

- 2.3.1 Mae angen rhoi ystyriaeth benodol i sut mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyfathrebu gyda busnesau sector preifat yn uniongyrchol a thrwy'r Mentrau Iaith.
- 2.3.2 Mae angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg geisio dylanwadu ar adrannau o'r Cynulliad sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau cefnogaeth busnes i geisio sicrhau eu bod nid yn unig yn darparu gwasanaeth dwyieithog ond eu bod hefyd yn ymwybodol o sut mae cynorthwyo busnesau

(busnesau newydd yn arbennig) i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu busnesau.

- 2.3.3 Mae angen pwysu ar y Cynulliad i gydnabod yr iaith Gymraeg fel sgîl a bod y neges yma yn rhoadru trwy adrannau perthnasol y sefydliad.
- 2.3.4 Mae angen cloriannu, pecynnu a lledaenu'r neges yn rhagweithiol ymysg busnesau am fanteision economaidd dwyieithrwydd a'r iaith Gymraeg i fusnesau.
- 2.3.5 O safbwynt cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y sector preifat mae angen targedu perchnogion busnesau sy'n siarad Cymraeg er mwyn sicrhau'r cynnydd mwyaf gyda'r adnoddau sydd ar gael.
- 2.3.6 Mae angen dwysau ymgyrchoedd i gynyddu'r defnydd gweledol a llafar o'r iaith Gymraeg gan roi ystyriaeth i unrhyw anghenion adnoddau fyddai ynghlwm â hynny.  
Ynghlwm â'r pwynt yma mae angen bod yn fwy rhagweithiol wrth gynorthwyo ac annog busnesau i wneud defnydd ehangach o'r iaith Gymraeg.
- 2.3.7 Mae angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg godi ymwybyddiaeth ymysg busnesau sector preifat o'r cymorth ymarferol maent eisoes yn darparu i fusnesau gan roi ystyriaeth i'r angen am adnoddau ychwanegol pe bai'r galw yn cynyddu'n sylweddol.
- 2.3.8 Mae angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ystyried targedu adnoddau i rai ardaloedd penodol ac ymchwilio effeithiolrwydd tebygol sefydlu 'trefi Cymraeg' fel modd o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat yn ehangach.
- 2.3.9 Mae angen hefyd i roi ystyriaeth i sut mae cysylltu'r Gymraeg gyda datblygiadau adfywio ehangach (trwy gydweithio ag eraill) fel bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chysylltu gyda llwyddiant a datblygiad, gan dalu sylw arbennig i gyfleoedd ariannu Ewropeaidd megis y rhaglen cydgyfeiriant.
- 2.3.10 Mae angen rhoi sylw arbennig i anghenion busnesau newydd a busnesau bobl ifanc cyn ac wrth iddyn nhw sefydlu. Bydd hyn yn golygu cydweithio gyda'r darparwyr cymorth busnes ac efallai sbarduno gweithgaredd ychwanegol (trwy geisiadau rhaglenni Ewropeaidd efallai) pe bai diffygion amlwg yn y gweithdrefnau presennol.
- 2.3.11 Mae angen cymryd camau i bontio rhwng y maes dysgu Cymraeg a busnesau ac i sicrhau fod darpariaeth addas at ddibenion busnesau ar gael. Mae hefyd angen sicrhau fod busnesau yn ymwybodol o'r hyfforddiant sydd ar gael yn lleol.

- 2.3.12 Er mwyn gwireddu amcanion strategaeth sector preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg mae angen i'r Bwrdd ddatblygu perthynas mwy ystyrion gyda nifer llai o bartneriaid sector preifat allai gynorthwyo yn uniongyrchol i ddatblygu a darparu rhai o'r gwasanaethau.
- 2.3.13 Ynghlwm â'r pwynt blaenorol - os ceir gwell cydnabyddiaeth fod yr iaith Gymraeg yn sgil fyddai'n cynorthwyo pobl i gael gwaith - mae lle i bwysu i ehangu'r ddarpariaeth gwersi Cymraeg am ddim i'r di-waith.
- 2.3.14 Mae angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynorthwyo i ddatblygu nifer fach o gyrsgiau peilot cyfrwng Cymraeg ar gyfer busnesau sector preifat - mewn sectorau penodol. Roedd mynychwyr y grwpiau ffocws at ei gilydd yn bryderus am fynychu cyrsiau cyfrwng Cymraeg - eto i gyd roedd y rheiny fynychodd gyrsgiau "Naws am Le" wedi eu mwynhau gan ddweud eu bod yn "addas". Efallai nad yw'r awgrym yma yn brif flaenoriaeth ond os am newid agweddau'r gweithlu tuag at hyfforddiant cyfrwng Cymraeg mae'n rhaid cymryd camau bychain.
- 2.3.15 Mae angen rhoi mwy o sylw i sut mae helpu busnesau i greu awyrgylch lle mae'n amlwg i gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg fod nhw'n gallu defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn y busnes ac mae hyn yn cynnwys cydlynu perthnasedd ymgyrchoedd megis 'Iaith Gwaith', 'Mae gen ti ddewis', ac ymdrechion pellach.

#### **2.4 Casgliad o ddyfyniadau gan fynychwyr y grwpiau ffocws (mae rhai wedi eu cyfieithu):**

- 2.4.1 "Rwy'n bwriadu marchnata'r Gwesty yn gwbl ddwyieithog gan fod marchnata dwyieithog gyfystyr ac ansawdd"
- 2.4.2 "Unwaith de ni i'r Gorllewin o Gaernarfon de ni'n colli busnes gan nad yw ein gwerthwyr yn siarad Cymraeg"
- 2.4.3 "Os chi'n medru cynnig gwasanaeth dwyieithog ma' fe'r eisin ar y gacen"
- 2.4.4 "Mae yna 'renaissance' yn yr iaith Gymraeg a gallai fod buddiannau anferth i fusnesau i fod yn rhan o hynny"
- 2.4.5 "Dwi'n credu fod cwsmeriaid yn fwy ffyddlon i'r busnes am ein bod ni'n defnyddio'r Gymraeg"
- 2.4.6 "Ryda ni ddim yn hyrwyddo ein gallu dwyieithrwydd yn ddigonol. Rydy ni ddim bob amser yn sylweddoli fod e'n rhinwedd a'i fod e'n rhywbeth sy'n cynnig mantais"
- 2.4.7 "Mae'n fantais fasnachol i fod yr unig gwmni sy'n cynnig gwasanaeth dwyieithog mewn maes arbenigol, mae'n gosod ni ar wahân"

- 2.4.8 “Mae gweld un busnes yn defnyddio’r Gymraeg yn medru annog un arall i wneud - rhyw fath o peer pressure positif”
- 2.4.9 “Mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu denu at gynnyrch neu siopau sydd â sgwennu Cymraeg arnynt. Mae’n denu nhw i drïo’r cynnyrch”
- 2.4.10 “Trwy dderbyn rhywfaint mwy o anogaeth a chefnogaeth trwy ddigwyddiadau megis hwn dwi’n siŵr byddai busnesau yn barod iawn i wneud defnydd ehangach o’r iaith”
- 2.4.11 “Os ydych yn medru cynnig gwasanaeth dwyieithog rhaid i bobl wybod hynny a byddwch yn denu pobl oherwydd hynny”
- 2.4.12 “De chi’n gweld y rhyddhad ar wynebau rhai cwsmeriaid fod nhw’n gallu trafod eu busnes yn Gymraeg”

### **3. Methodoleg**

#### **3.1. Recriwtio**

Anelwyd i gynnal y grwpiau ffocws ar ddiwedd y prynhawn pryd byddai'n arferol i bobl fod ar eu ffordd adre o'r gwaith – y nosweithiau i ddechrau dim hwyrach na 6.00 pm.

Dewiswyd lleoliadau oedd yn:

- Gyfleus i'r mynychwyr gan gadw'r amser teithio i'r lleiafswm
- Ddeniadol gydag enw da am luniaeth a gwasanaeth
- Gwneud defnydd o'r Gymraeg eu hunain

Yn dilyn llythyr gwahoddiad cychwynnol cysylltwyd gyda'r cwmnïau trwy eu ffonio yn uniongyrchol gan geisio eu darbwyllo o'r budd masnachol posib i'w busnesau. Fe brofodd hyn yn eithriadol o anodd mewn rhai ardaloedd e.e. er gwaethaf 150 o alwadau ffôn gan ymchwilydd profiadol dim ond 4 busnes daeth i'r grŵp ffocws yn Aberhonddu. Mewn ardaloedd eraill roedd rhestr lawn o enwau wedi cadarnhau yn ystod y dydd ond eto'n methu troi fyny ar y noson - am wahanol resymau. Er mor rhwystredig oedd hyn ar adegau teimlwyd ein bod wedi cael trafodaethau buddiol dros ben ym mhob un o'r grwpiau a chynrychiolaeth ddigonol o fusnesau yn y diwedd.

Cynigwyd gwobr i fynychwyr pob noson a hefyd cyflwynwyd enwau'r holl fynychwyr ar gyfer gwobr o wyliau yng Ngwesty'r Harbwr, Aberaeron. Enillwyd y gwyliau gan Carol Harvie, Harvies Pies.

Fe gafwyd cydweithio da iawn gan swyddogion Ffederasiwn y Busnesau Bychain a chyflwynwyd gohebiaeth bwrpasol i'w chynnwys ar eu gwefan. Nid oedd modd iddynt ddarparu manylion busnesau penodol felly nid oedd yn bosib dilyn y gwahoddiadau gyda galwadau ffôn. Roedd hi'n sefyllfa debyg gyda'r Siambrau Masnach lle'r oedd enwau rhai aelodau yn unig yn hysbys ar wefannau rhai ardaloedd. Tra ein bod wedi anelu i gael treian o fusnesau fyddai'n aelod o'r FfBB a threian arall fyddai'n aelodau o'r Siambrau Masnach nid oedd hyn yn ymarferol bosib ac ar ddiwedd y dydd roedd rhaid bodloni ar y gynrychiolaeth a gawsom.

Dim ond busnesau preifat gymrodd rhan yn y grwpiau ffocws (bu'n rhaid gwrthod ambell gais o'r sector gwirfoddol/cyhoeddus).

#### **3.2. Trefn y noson**

Ffurfiwyd canllaw trafod ar gyfer y Grwpiau Ffocws a gafodd ei gytuno ymlaen llaw gyda swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae copi llawn o'r canllaw trafod i'w weld yn Atodiad 1.

Llwyddwyd i holi'r rhan fwyaf o'r cwestiynau ym mhob un o'r grwpiau ffocws a theimlwyd fod y canllaw trafod wedi gweithio yn dda iawn o ran cyflawni nod y grwpiau ffocws.

Recordiwyd y sgysiau ar dâp gyda chaniatâd y mynychwyr ond gan ei bod hi weithiau'n anodd i wneud synnwyr o'r trafodaethau a chofio pwy ddwedodd beth - cynhyrchwyd cofnod llawn o sylwadau bob trafodaeth yn union ar ôl y cyfarfod ac mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad 2 ac yn ffurfio sail cynnwys yr adroddiad yma.

Mae'n deg nodi fod sefyllfa trefniadau grŵp Dinbych rhywfaint yn wahanol i weddill y grwpiau gan i'r trafodaeth ddigwydd fel rhan o ddigwyddiad ehangach gan Glwb Busnes y Dref. Roedd rhywfaint mwy o sylwadau negyddol am y defnydd o'r iaith yn y grŵp yma ond efallai fod hynny'n ddisgwyliedig gan nad oedd y mynychwyr wedi ymateb yn uniongyrchol i fynychu digwyddiad oedd yn trafod yr iaith yn benodol. Roedd mynychwyr y grwpiau eraill mae'n amlwg wedi dangos rhyw ddiddordeb yn y pwnc ymlaen llaw - ar sail ieithyddol neu fudd masnachol.

#### 4. Y prif themâu a godwyd ynghlwm â chwestiynau'r canllaw trafod

##### 4.1. Cwestiwn 1:

### **Beth yw'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg o fewn y busnesau a'r ardaloedd a gynrychiolir yn y grwpiau ffocws?**

Roedd y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg gan fusnesau'r grwpiau ffocws yn amrywio llawer yn ôl y disgwyl.

At ei gilydd roedd mynychwyr grwpiau Llangefni, Pwllheli, Aberystwyth, Aberteifi, a Chaerfyrddin yn gwneud defnydd sylweddol o'r iaith yn barod o fewn eu busnesau ac yn yr ardal.

Roedd mynychwyr Llandudno yn amrywio cryn dipyn o ran y defnydd o fewn eu busnesau ond yn credu fod cryn ddefnydd o'r iaith yn yr ardal yn gyffredinol gan fusnesau – yn enwedig yn weledol.

Roedd rhai o fynychwyr Caerdydd yn gwneud defnydd helaeth o'r iaith ond yn teimlo mai prin yw'r enghreifftiau sector preifat yn y ddinas.

Nid oedd cymaint â hynny o ddefnydd o'r iaith gan fynychwyr grwpiau Dinbych, Wrecsam ac Aberhonddu – eto'n cyd-fynd gyda phroffil ieithyddol yr ardal i raddau – er efallai fod agwedd mynychwyr Dinbych ychydig yn fwy negyddol na'r disgwyl.

Mae 10 grŵp ffocws yn cynnig toreth o sylwadau a safbwyntiau ac anodd yw cyffredinoli o ystyried natur wahanol yr ardaloedd o safbwynt y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg.

O ran yr adroddiad yma ceisir crynhoi'r sylwadau i ddyrmaid o brif themâu gan ganolbwyntio ar themâu sydd ag arwyddocâd arbennig o safbwynt polisïau a gweithgareddau presennol Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

##### 4.1.1. Roedd y grwpiau yn ddieithriad yn gweld yr iaith Gymraeg fel mantais fasnachol/economaidd.

Fe gafodd hyn ei amlygu gan siaradwyr Cymraeg a'r di-gymraeg fel ei gilydd ac fe gafwyd sylwadau cefnogol megis:

- *“Os ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg mae e'n cyfrannu at ffyddlondeb eich cwsmeriaid”* (Caerfyrddin)
- *“Mae'n help i chi fedru uniaethu gyda'ch cwsmeriaid”* (Llangefni)
- *“Rwy'n bwriadu marchnata'r Gwesty yn gwbl ddwyieithog gan fod marchnata dwyieithog gyfystyr ac ansawdd”* (Aberhonddu)
- *“Mae'n help i fod yr unig gwmni sy'n cynnig gwasanaeth dwyieithog mewn maes arbenigol”* (Caerdydd)

- *“Mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu denu at gynnyrch neu siopau sydd â sgwennu Cymraeg arnynt, mae’n denu nhw i drïo’r cynnyrch”* (Wreccsam).
- *“Unwaith de ni i’r Gorllewin o Gaernarfon de ni’n colli busnes gan nad yw ein gwerthwyr yn siarad Cymraeg”* (Llandudno)

#### 4.1.2. Defnydd llafar yw’r defnydd helaethaf a wneir o’r iaith Gymraeg gan fusnesau.

Hyd yn oed o fewn busnesau oedd â chanran uchel o staff a chwsmeriaid sy’n siarad Cymraeg fe gafwyd sawl cyfeiriad at y ffaith nad oeddynt yn gwneud y defnydd llawnaf o’r iaith yn ysgrifenedig ac roeddynt yn amlwg yn teimlo peth euogrwydd ynglŷn â hyn. Er yn cydnabod pwysigrwydd marchnata ar y we yn ystod y blynyddoedd diwethaf fe nododd rhai busnesau oedd yn defnyddio’r Gymraeg ar lafar neu’n ysgrifenedig nad oedd gwefannau dwyieithog ganddynt. (Caerdydd, Llandudno, Dinbych)

Y mathau o sylwadau a dderbyniwyd dan y thema yma oedd:

*“De ni ddim yn defnyddio’r Gymraeg yn ffurfiol o fewn y cwmni gan fod y staff i gyd yn medru siarad Saesneg hefyd – felly mae’n haws o safbwynt materion cyflogaeth ac ati i ddefnyddio’r Saesneg.”* (Wreccsam)

*“Does na’m cymaint â hynny o’n cwsmeriaid ni’n lleol felly does dim cymaint o angen”* (Caerdydd)

*“Llawer o’n cyflenwyr ddim yn siarad Cymraeg felly de ni ddim yn boddran”* (Aberteifi)

*“Mae termau technegol o fewn y busnes yn gwneud o’n anodd defnyddio’r Gymraeg yn ysgrifenedig”* (Dinbych, Caerfyrddin)

*“Dwi ddim wedi arfer sgwennu sieciau yn Gymraeg ac ati, gafo ni ddim addysg Gymraeg”* (Caerfyrddin, Llangefni).

*“Dyw hyd yn oed y busnesau naturiol Cymreig ddim yn gwneud y defnydd ysgrifenedig llawnaf”* (Caerfyrddin)

*“Cymraeg de ni’n siarad adre a phob dim ond mae’r wefan yn uniaith Saesneg ar y funud”* (Llandudno)

*“Nid yw’r Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith busnes ond fel iaith breifat - iaith y teulu”* (Caerdydd, Dinbych)

#### 4.1.3. Mae pobl ifanc a busnesau newydd yn debycach o wneud defnydd llawnach o’r iaith Gymraeg.

Fe gafwyd sawl cyfeiriad yn y grwpiau fod busnes newydd mewn sefyllfa i wneud defnydd ehangach o'r iaith. Hefyd fe gafwyd cyfeiriadau tebyg o safbwynt bobl ifanc.

Y math o sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

*“Mae pobl ifanc yn medru gwneud mwy o ddefnydd ysgrifenedig o'r iaith oherwydd y system addysg sy'n bodoli heddiw” (Caerfyrddin, Llangefni)*

*“Mae busnes newydd yn debycach o fod yn ddwyieithog o ran arwyddion ac ati” (Pwllheli)*

*“Byddai busnesau newydd sydd ddim yn defnyddio arwyddion dwyieithog yn cael eu ceryddu yn y wasg yn lleol. Dim ond hen fusnesau (a rheiny yn cael eu rhedeg gan siaradwyr Cymraeg) sydd heb arwyddion dwyieithog ym Mhwillheli bellach” (Pwllheli).*

#### 4.1.4. Yn gyffredinol, nid oes llawer o ymwybyddiaeth gan y busnesau am broffil ieithyddol eu cwsmeriaid.

Fe gyfeiriodd y busnesau o fewn grŵp Pwllheli fod tua 85% o'u cwsmeriaid yn medru siarad Cymraeg ac eithrio'r Clwb Hwyllo a nododd fod 30% o'u cwsmeriaid hwy yn siarad Cymraeg. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth ffeithiol neu sylwadau gan y grwpiau mewn ardaloedd eraill i awgrymu eu bod wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r mater. Mewn busnesau arbenigol neu fusnesau gydag apêl llawer ehangach na'r cwsmeriaid lleol awgrymwyd byddai'n anoddach gwybod pa ganran o'r cwsmeriaid fyddai'n siarad Cymraeg.

#### 4.1.5. Mae sylweddoliad y gallasant hwy fel busnesau wneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg – ac yn wir mae parodrwydd i wneud hynny.

Roedd cydnabyddiaeth eang gan y busnesau o fewn y grwpiau y gallent hwy wneud defnydd ehangach o'r iaith ac fe ddaeth hynny'n amlycach i rai yn ystod ein trafodaethau. Roedd yna deimlad cyffredinol fod y drws yn lled agored a bod cryn barodrwydd i ystyried ffyrdd o wneud hynny.

*“Mae cwsmeriaid yn weledol falch o fedru trafod eu busnes yn Gymraeg ond does 'na ddim i awgrymu fod nhw'n gallu gwneud hynny wrth iddyn nhw gerdded fewn i'r swyddfa” (Dinbych)*

*“Mae 60-70% o'n cwsmeriaid yn medru siarad Cymraeg ond dim ond 1% sy'n holi am wasanaeth Cymraeg – yn awgrymu fod rhywbeth o'i le” (Aberystwyth/ Aberaeron)*

*“Mae rhai rhieni yn dewis peidio dod a'u plant i'r feithrinfa achos bod ein staff ddim yn siarad Cymraeg” (Caerdydd).*

*“Chi'n gallu gweld y rhyddhad pan mae rhai cwsmeriaid yn gallu siarad gyda chi yn Gymraeg (Caerdydd)*

*“Os chi’n medru cynnig gwasanaeth dwyieithog ma’ fe’r eisin ar y gacen”*  
(Caerdydd)

*“Rydy ni ddim yn hyrwyddo ein gallu dwyieithrwydd yn ddigonol. Rydy ni ddim bob amser yn sylweddoli fod e’n rhinwedd a’i fod e’n rhywbeth sy’n cynnig mantais”* (Aberteifi). (Mae’n bosib y gallai hwn fod yn thema yn ei hun)

#### 4.1.6. Roedd safbwynt busnesau yn y sector twristiaeth ar y defnydd o’r iaith Gymraeg yn amrywio cryn dipyn.

Roedd nifer o sylwadau cadarnhaol am y defnydd o’r iaith Gymraeg o fewn twristiaeth ond roedd ambell berchennog ddim yn gweld ei pherthnasedd. Eto i gyd, roedd y mwyafrif yn cydnabod fod y farchnad dwristiaeth o fewn Cymru yn bwysig iddynt.

*“Tydi’r iaith Gymraeg ddim mor bwysig ar gyfer y farchnad ymwelwyr”*  
(Llangefni)

*“O safbwynt y clwb golff, does dim pwynt marchnata yn Gymraeg”*  
(Aberystwyth/ Aberaeron)

*“Mae Americanwyr wrth eu boddau yn gweld a chlywed y Gymraeg”*  
(Wrecsam)

*“Mae hyd yn oed ymwelwyr yn hoffi clywed yr iaith”* (Llangefni)

*“Mae siop Bwylaidd yn Wrecsam sy’n defnyddio 3 iaith ac mae o’n beth positif iawn iddyn nhw”* (Wrecsam)

#### 4.1.7. Mae mewnfudwyr at ei gilydd yn dangos awydd i ddefnyddio’r iaith o fewn eu busnesau (mwy na’r Cymry di-Gymraeg)

Fe gyfeirir at hyn nes ymlaen yn yr adroddiad.

#### 4.1.8. Mae rhai busnesau yn draddodiadol yn gwneud bach iawn o ddefnydd o’r iaith Gymraeg e.e. cyfreithwyr

Fe gyfeirir at hyn nes ymlaen yn yr adroddiad.

#### 4.1.9. Sylw negyddol

Ni dderbyniwyd llawer iawn o sylwadau negyddol drwyddi draw am y defnydd o’r iaith Gymraeg mewn busnesau o fewn y grwpiau ffocws.

Roedd rhai o fynychwyr grŵp Aberhonddu yn teimlo y byddai rhai busnesau yn yr ardal yn erbyn defnyddio’r Gymraeg ac y gallai gael adwaith negyddol. Awgrymwyd mai rhan o’r rheswm am hyn oedd bod bobl yn teimlo’n flin nad oeddynt wedi cael addysg Gymraeg. Nodwyd hefyd fod nifer o ddysgwyr yn yr ardal ond fod diffyg cyfle i ymarfer yr iaith mewn awyrgylch busnes.

Awgrymwyd na fyddai'r Gymraeg yn ystyriaeth wrth recriwtio staff yn ardal Aberhonddu ond fod awydd gwirioneddol gan rai busnesau i wneud mwy. Fodd bynnag doedden nhw ddim yn gwybod lle i droi am gymorth.

Tra bod y siaradwyr Cymraeg a'r mewnfudwyr yn grŵp Dinbych yn gweld manteision i ddefnyddio'r Gymraeg, roedd nifer o berchnogion lleol di-Gymraeg yn negyddol ac yn gwadu perthnasedd yr iaith i'w busnes.

Weithiau roedd yna deimlad fod busnesau yn gwneud defnydd o'r iaith am ei fod yn ddisgwyliedig neu'n ofynnol ohonynt – er nad oedd hynny o reidrwydd yn cael ei weld fel peth negyddol bob amser e.e.

*“Mae pwysau gan bobl leol neu efallai fod anogaeth yn well gair, i chi ddarparu gwasanaethau dwyieithog - fyw i chi beidio bron”* (Pwllheli). Doedd y grŵp ddim yn gweld hyn fel peth drwg i gyd fodd bynnag.

*“Mae gweld un busnes yn defnyddio'r Gymraeg yn medru annog un arall i wneud – rhyw fath o peer pressure”* (Wreccsam)

*“Weithiau mae jyst yn wleidyddol gywir i gael Cymraeg ar y label”* (Wreccsam)

*“Fe wnes i o yn ddwyieithog achos ges i grant gan y WDA”* (Dinbych)

#### 4.1.10. Sylwadau eraill

Efallai nad yw'n syndod i'r busnesau bach a chanolig eu maint fynychodd y grwpiau nodi nad oedd polisi penodol ganddynt yn ymwneud â'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn eu cwmnïau. Mae hynny yn fwy cyfarwydd mewn cwmnïau mwy a busnesau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae yna awgrym, yn enwedig o gysylltu hyn gyda rhai o'r rhwystrau nodwyd mewn ymateb i'r cwestiwn nesaf, y byddai rhywfaint o gymorth gyda ffurfioli prosesau yn cael ei groesawu. Fe allai hyn fod yn beth cadarnhaol o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn busnesau.

## 4.2. Cwestiwn 2:

### **Beth yw'r rhwystrau ymarferol sy'n gwadu cwmnïau rhag gwneud defnydd ehangach o'r Gymraeg o fewn eu busnesau?**

Yn hytrach na holi busnesau i nodi yn uniongyrchol pa gymorth ymarferol yr hoffent dderbyn er mwyn cynorthwyo iddynt gynyddu eu hymwneud â'r Gymraeg, a'r defnydd ohoni, gofynnwyd iddynt i nodi'r rhwystrau ymarferol i ddechrau.

Dyma restr o'r prif rwystrau nodwyd:

#### 4.2.1. Y gost

Heb amheuaeth dyma'r rhwystr a gyfeiriwyd ato amlaf ac o fewn pob grŵp yn ddieithriad derbyniwyd sylwadau megis:

*"Mae'n costio ddwywaith i wneud pethau'n ddwyieithog ac felly ddim yn gwneud synnwyr busnes"* (Llandudno)

*"Y gost o gael arwyddon dwyieithog. Mae arian ar gael gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ond mae e wastad yn rhedeg allan"* (Dinbych)

*"Pan mae rhywun yn sefydlu busnes mae'r elfen ddwyieithog yn ychwanegol ac yn medru dyblu'r gost e.e. creu gwefannau neu daflenni. Mae 'na issue amser ynghlwm â hyn hefyd"* (Pwllheli)

*"Mae yna gostau postio ychwanegol ynghlwm â deunyddiau marchnata dwyieithog hefyd"* (Caerdydd)

*"Mae help ariannol ar gael i argraffu ambell beth ond mae cymaint o bethau eraill i'w sortio fel busnes does na'm amser nac amynedd i wneud"* (Wrecsam)

*"Y gost yw'r prif issue oherwydd petai'r cyllid ar gael byddai gwasanaeth cyfieithu yn medru gofalu am y cyfan"* (Wrecsam)

*"Popeth yn costio ddwywaith cymaint ac mae argraffu yn ddrud"* (Aberystwyth/ Aberaeron)

#### 4.2.2. Amser

Ynghlwm â'r pwynt blaenorol mae nifer o fusnesau yn nodi nad oes amser i ddarparu pethau'n ddwyieithog gan fod pobl yn brysur a "time is money".

Mae rhai cyfeiriadau penodol pellach ynghlwm â diffyg amser, e.e.

(yng nghyswllt aros am grant marchnata) - *"Fedrith busnesau ddim aros wythnosau i grant marchnata ddod drwodd felly mae arwyddion uniaith Saesneg yn mynd fyny"* (Dinbych)

*“Yr amser mae’n cymryd i ddysgu iaith” (Aberhonddu)*

*“Mae’n cymryd gormod o amser i gael pethau ‘nôl wedi eu cyfieithu yn amlach na pheidio” (Pwllheli)*

*“Arafwch asiantaethau (menter iaith) i ymateb i ofynion – heb glywed dim yn ôl neu yn gyndyn o helpu o gwbl” (Aberhonddu)*

#### 4.2.3. Y gallu i recriwtio staff sy’n siarad Cymraeg

Mae’n amlwg fod nifer o’r cwmnïau yn cael trafferth wrth geisio recriwtio staff dwyieithog addas. Roedd hyn yn llai o broblem ymysg mynychwyr Grwpiau Pwllheli a Môn ond fe gyfeiriodd y grwpiau eraill at faterion megis:

- trafferthion recriwtio siaradwyr Cymraeg mewn rhai sectorau penodol e.e. Arlwyo (Aberteifi), Cyfreithwyr (Caerfyrddin)
- trafferthion recriwtio siaradwyr Cymraeg gyda sgiliau arbenigol e.e. milfeddygol/ meddygol (Caerfyrddin)
- yr angen am gymorth wrth asesu lefel sgiliau Cymraeg ymgeiswyr. Perchnogion di-Gymraeg yn cael problem ychwanegol gyda hyn.
- Diffyg ymwybyddiaeth am y rheolau ynghlwm â hysbysebu am siaradwyr Cymraeg (geiriad hysbysebion)
- Yr angen am gymorth wrth lunio hysbysebion ar gyfer swyddi dwyieithog, a gyda’r broses recriwtio yn gyffredinol
- Diffyg hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio’r iaith yn ysgrifenedig – poeni llawer am ramadeg. Sut mae cyflogwr yn asesu os byddai sgiliau gloywi yn ateb y broblem?

#### 4.2.4. Sgiliau ieithyddol

Mae yna nifer o themâu sy’n cael eu hamlygu yn ymwneud â sgiliau ieithyddol.

- Cywirdeb ieithyddol ysgrifenedig (siaradwyr Cymraeg)

*“Dwi methu ysgrifennu yn raenus felly byddai hynny yn cyfrif yn erbyn y busnes” (Llandudno)*

*“Mae barn siaradwyr Cymraeg lleol yn medru amrywio ynglŷn â beth sy’n gywir/ derbyniol” (Pwllheli)*

*“Gan fod lefel amrywiol o ddeallusrwydd o’r iaith” (Llangefni)*

*“Cymry Cymraeg yn medru bod yn ‘sceptical’ os nad ydi’r Gymraeg yn raenus” (Llandudno)*

- Hyder i ddelio gyda chwsmeriaid (dysgwyr yn bennaf)

Nododd nifer oedd wedi dysgu Cymraeg a mewnfudwyr eraill di-Gymraeg gryn awydd i farchnata yn Gymraeg ond bod ofn arnynt gamarwain darpar gwsmeriaid gan na fyddent o bosib yn medru delio gyda nhw yn Gymraeg.

*“Does 'na ddim siaradwyr Cymraeg o fewn y busnes felly dwi ddim ishe camarwain cwsmeriaid”* (Llandudno) (Dinbych)

*“Dwi wedi meddwl hysbysebu yn ddwyieithog ond a fyddai rhywun yn siomedig pe bai nhw'n ffonio a fi'n methu cynnal sgwrs efo nhw yn Gymraeg wedyn?”* (Pwllheli)

- Arbenigedd a materion technegol

Gwnaed sylw gan gyfreithwyr a milfeddygon e.e. fod hi'n anodd darparu gwasanaethau dwyieithog ar adegau oherwydd maint dogfennaeth neu natur dechnegol y gwaith. Byddai angen cyfieithydd arbenigol.

Fe nodwyd hefyd diffyg hyder gan rai sectorau e.e. sector arlwyyo ynglŷn â defnyddio terminoleg busnes yn Gymraeg e.e. 'Food and Hygiene'. Nododd eraill fod hi'n anodd denu staff sydd wedi eu hyfforddi mewn meysydd arbenigol ac yn siarad Cymraeg.

- Argaeledd a safon cyfieithwyr

Doedd llawer iawn o'r busnesau ddim yn ymwybodol o wasanaeth cyfieithu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ond yn meddwl y buasai yn ddefnyddiol iawn.

Yr oedd rhai yn gwybod amdano ac yn nodi byddai gwasanaeth ychydig ehangach na'r hyn sydd ar gael ar y funud yn ddefnyddiol e.e. cyfieithu llythyron.

Yr oedd nifer hefyd heb glywed am fodolaeth Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru – fel ffynhonnell wybodaeth am gyfieithwyr safonol.

*“Mae angen help i sicrhau fod cyfieithiadau yn gywir ac addas”* (Aberteifi)

*“Dylai fod mwy o feddalwedd iaith ar gael i fusnesau – pethau fel llythyron safonol”* (Caerfyrddin)

*“I bobl busnes di-Gymraeg neu ddysgwyr mae'n anodd bod yn siŵr fod y Gymraeg a ddefnyddir yn addas”* (Pwllheli)

#### 4.2.5. Ofn gelyniaethu cwsmeriaid

Er bod y mwyafrif o fusnesau yn edrych ar sgiliau dwyieithog a'r defnydd o'r Gymraeg fel peth cadarnhaol mae'n amlwg fod rhywfaint o nerfusrwydd yn parhau ynghylch gelyniaethu cwsmeriaid di-Gymraeg.

*“Bobl yn ddrwgdybus o glywed iaith nad ydynt yn ddeall”* (Caerfyrddin)

*“Ofn gwrthwynebiad gan rieni di-gymraeg (meithrinfa) - a fyddai hyn yn werth mwy i'r busnes na busnes newydd o siaradwyr Cymraeg?” (Caerdydd)*

*“Mae mwyafrif ein cwsmeriaid yn uniaith Saesneg” (Aberhonddu)*

#### 4.2.6. Anogaeth a chefnogaeth

Roedd mynychwyr mwy nac un o'r grwpiau wedi nodi eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn holi eu barn ynglŷn â'r mater yma.

Fe ddaeth yn amlwg hefyd fod awydd ymysg nifer o fusnesau i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith pe bai anogaeth a chefnogaeth iddynt i wneud hynny, ac eraill yn nodi'r angen i bwysleisio manteision economaidd yr iaith.

*“Does 'na neb wedi annog ni i wneud, na holi ni i wneud. Dwi'n siŵr y gwnâi ni ac eraill gyda chefnogaeth ac anogaeth” (Dinbych)*

*“Byddai'n ddefnyddiol i glywed yr achos busnes ('business case') dros ddefnyddio'r Gymraeg” (Aberhonddu)*

*“Byddai'n ddefnyddiol cael cyngor dylunio ac ar gynnwys deunyddiau marchnata dwyieithog” (Pwllheli)*

*“Byddai unrhyw help i feintoli'r budd yn ddefnyddiol iawn” (Aberystwyth/ Aberaeron)*

### 4.3. Cwestiwn 3:

**Pa gymorth ymarferol allai Bwrdd yr Iaith Gymraeg (neu eraill) ei ddarparu i'ch cynorthwyo i oresgyn y rhwystrau hyn?**

Gellir crynhoi'r ymatebion i'r cwestiwn yma dan nifer fach o benawdau sef:

- Cymorth ariannol
- Hyrwyddo'r hyn y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (ac eraill) yn medru cynnig i fusnesau
- Cyngor ar amrywiol faterion
- Cyfieithu – a materion cysylltiedig
- Hyfforddiant
- Darparu adnoddau/deunyddiau
- Datblygiadau strategol

#### 4.3.1. Cymorth ariannol

Fe nododd pob un o'r grwpiau'r angen am gymorth ariannol ar gyfer amrywiol elfennau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu busnesau. Y prif feysydd a gyfeiriwyd atynt oedd:

- Cymorth ariannol i gynhyrchu arwyddion ac argraffu deunyddiau marchnata – angen proses syml a sydyn
- Cymorth ariannol wrth ddechrau busnesau yn arbennig, a phan mae busnesau yn ehangu oherwydd dyma'r adegau pryd mae mwyaf o angen help
- Cymorth ariannol gyda chyfieithu amrywiol ddogfennau – angen gwasanaeth syml a sydyn
- Cymorth ariannol ar gyfer gwersi Cymraeg addas
- System o ddarparu adnoddau am ddim neu ar ddisgownt i fusnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg.

#### 4.3.2. Hyrwyddo beth mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (ac eraill) yn medru cynnig i fusnesau:

Mae'n amlwg fod ymwybyddiaeth mynychwyr y grwpiau ynghylch yr help ymarferol sydd eisoes ar gael gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn weddol isel. Ychydig iawn o'r busnesau oedd yn ymwybodol o'r gwasanaeth cyfieithu ar-lein mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei gynnig. Mae'n amlwg hefyd fod llawer o'r mynychwyr yn werthfawrogol o'r cyfle i fynychu'r grwpiau ffocws a'u bod yn teimlo iddynt dderbyn gwybodaeth ddefnyddiol yn ystod y nosweithiau (er nad dyma oedd y prif fwriad wrth gwrs).

Y prif feysydd lle nodwyd bod diffyg ymwybyddiaeth ar hyn o bryd yw:

- Gwasanaeth cyfieithu a phrawf-ddarllen ar-lein
- Grantiau marchnata gan gynnwys cymorth i gynhyrchu arwyddion dwyieithog
- Deunyddiau iaith gwaith (cwestiwn ar wahân)
- Termiadur Cymraeg
- Gwefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gyffredinol a'r llinell gyswilt
- Sut a lle i gysylltu gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Gwybodaeth dechnegol am greu gwefannau sydd ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Awgrymodd un o'r mynychwyr nad oedd ei fusnes erioed wedi derbyn unrhyw ohebiaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg gan awgrymu y byddai gohebiaeth syml achlysurol yn help i godi ymwybyddiaeth.

#### 4.3.3. Cyngor

Teimlwyd fod parodrwydd eithaf eang ymysg mynychwyr y grwpiau i wneud defnydd ehangach o'r iaith o fewn eu busnesau ac fe gyfeiriwyd at sawl sefyllfa lle byddai rhywfaint o gyngor yn medru hwyluso'r broses. Nodwyd y canlynol:

- Cyngor gyda dylunio deunyddiau marchnata dwyieithog addas (layout, diwyg, ayyb).
- Cyngor i sicrhau eu bod yn defnyddio ieithwedd addas
- Cyngor gyda chyfieithu enwau technegol

- Cyngor i ddelio gyda marchnata dwyieithog pan nad ydych yn siarad Cymraeg; nid o safbwynt cyfieithu yn unig ond hefyd o safbwynt rheoli disgwyliadau cwsmeriaid a pheidio siomi neu elyniaethu cwsmeriaid am nad ydych yn medru delio gyda nhw yn Gymraeg.
- Cyngor ar le i archebu nwyddau busnes dwyieithog megis arwyddion 'allanfa dân', ac yn y blaen.

#### 4.3.4. Cyfieithu

Nodwyd yr angen am gymorth cyfieithu gan fwy na hanner y grwpiau, gyda sawl un yn nodi'r angen am wasanaeth cyfieithu darnau byr mewn amser byr. Gan amlaf nid oeddynt yn ymwybodol o'r gwasanaeth mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg eisoes yn ei gynnig er i un neu ddau awgrymu y gallai'r gwasanaeth yma gael ei ymestyn i gynnwys pytau hirach e.e. llythyrau byr a dogfennau hyd at 200 o eiriau. Nodwyd hefyd yr angen am wasanaeth i wirio fod cyfieithiadau a gwblhawyd gan y busnesau eu hunain yn gywir ac yn addas i'w busnes. Hefyd derbyniwyd un awgrym ynghylch cael aelod o staff Bwrdd yr Iaith Gymraeg (neu rywun allai gyfieithu) yn bresennol mewn digwyddiadau megis sioeau bwyd i gynorthwyo stondinwyr gyda gwerthiant.

#### 4.3.5. Hyfforddiant

Er bod cwestiwn penodol yn ymwneud â hyfforddiant nes ymlaen, fe nodwyd rhyw fath o anghenion hyfforddi gan hanner y grwpiau mewn ymateb i'r cwestiwn yma gan gynnwys:

- Gwersi Cymraeg i staff ar amseroedd addas (ar ôl gwaith – busnesau bach methu fforddio colli staff yn ystod y dydd)
- Hyfforddiant defnyddio'r Gymraeg mewn busnes (mewn perthynas â marchnata yn bennaf)
- Hyfforddiant gyda "sefyllfaoedd" e.e. Dysgwraig yn nodi ei bod yn medru cynnal sgysiau yn Gymraeg yn ddigon hyderus ond gan fod elfennau technegol i'w busnes a bod hi ddim yn gallu gwneud y "bit technegol" yn Gymraeg roedd hi'n dueddol o gychwyn yn Saesneg – rhag gorfod newid iaith hanner ffordd trwy'r sgwrs. Ei chanfyddiad hi oedd y byddai'n siomi cwsmeriaid Cymraeg trwy newid iaith.  
Roedd sylwadau mewn grwpiau eraill am y defnydd o dermau technegol yn ogystal.
- Angen gwersi Cymraeg wedi eu teilwra yn benodol i fusnesau
- Angen help ariannol i gynorthwyo gyda'r gost o hyfforddi staff
- Cyrsiau undydd croeso a chyfarch

#### 4.3.6. Darparu adnoddau / deunyddiau

Fe gyfeiriodd cwpwl o'r grwpiau at ddiffyg argaeledd arwyddion statudol yn y Gymraeg. Nodwyd yr angen am ddeunyddiau megis arwyddion safonol "Dim ysmegu" neu "Rhybudd oedran prynu alcohol". Nid oeddynt yn ymwybodol lle i gael gafaél arnynt a hefyd yn teimlo fod angen ymestyn yr ystod o arwyddion safonol dwyieithog sydd ar gael i fusnesau yn gyffredinol.

#### 4.3.7. Datblygiadau strategol

Fe awgrymodd mwy nag un o'r grwpiau y dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg roi ystyriaeth i dargedu adnoddau i rai ardaloedd penodol yn hytrach na cheisio bod yn bopeth i bawb – ac efallai byddai hynny yn cael mwy o effaith yn y pen draw.

Datblygwyd yr awgrym yma ymhellach gan un o'r grwpiau trwy gynnig y dylid cael ymgyrch ddwys mewn rhai trefi marchnad fel eu bod yn cael eu hadnabod fel trefi 'Cymraeg' – ac y gallai hynny yn ei dro ddenu siopwyr fyddai am ddefnyddio'r Gymraeg. Fe dderbyniwyd sawl sylw fod cwmnïau yn debygol o geisio efelychu defnydd llwyddiannus o ddwyieithrwydd gan gwmnïau eraill ac fe awgrymwyd y gallai hynny fod yn wir am y trefi 'Cymraeg' yn ogystal.

Derbyniwyd awgrymiadau hefyd y gellid targedu trefi sydd rywfaint llai llewyrchus ar hyn o bryd (adeiladau gwag ac ati) a bod yr elfen iaith yn dod yn rhan o adfywio ehangach (trwy gydweithio gyda'r cyngor lleol ac ati) fel bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel rhywbeth cadarnhaol, ynghlwm a llwyddiant a datblygiad.

Mae'r awgrymiadau uchod yn rhai arloesol sy'n deilwng o sylw pellach gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg - yn enwedig yng nghyswllt 'WAVE' a blaenoriaethau rhaglenni Ewropeaidd newydd.

Derbyniwyd y sylw hefyd fod llai o siaradwyr Cymraeg yn siopa mewn un dref farchnad oherwydd bod archfarchnad wedi agor mewn tref arall gyfagos, gan awgrymu fod datblygiadau megis archfarchnadoedd yn gallu effeithio ar batrymau siopa siaradwyr Cymraeg ac ar Gymreictod trefi - a bod angen ymchwilio ymhellach i'r tueddiadau yma.

Fe awgrymodd dau o'r grwpiau fod angen codi ymwybyddiaeth am fudd economaidd yr iaith a gwerth yr iaith Gymraeg mewn busnes yn gyffredinol.

#### 4.4. **Cwestiwn 4:**

##### **Ydych chi'n ymwybodol o ddeunyddiau iaith Gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg? (gan gyfeirio at enghreifftiau)**

Drwyddi draw roedd yr ymwybyddiaeth am ddeunyddiau iaith Gwaith yn isel iawn.

Dim ond mynychwyr grwpiau ffocws Pwllheli a Chaerfyrddin oedd yn gyfarwydd gyda'r deunyddiau diweddaraf.

Roedd mynychwyr grŵp Pwllheli yn frwd iawn dros y deunyddiau ac fe nododd un busnes fod rhywun o'r fenter iaith leol wedi treulio awr gyda hi yn mynd trwy bopeth ac roedd hynny wedi bod "yn ardderchog". Nododd un neu

ddau o'r dysgwyr oedd yn bresennol na fydden nhw'n defnyddio'r arwyddion rhag camarwain cwsmeriaid (ofn methu cynnal y sgwrs yn Gymraeg).

Tra bod mynychwyr grŵp Caerfyrddin yn ymwybodol o'r deunyddiau nodwyd nad oedd eu cwsmeriaid yn deall beth oeddynt - yn bennaf gan nad oedd unrhyw ysgrifen ar y deunyddiau (ar wahân i'r bathodynau dysgwr) i ddweud beth oeddynt.

Fe gafodd y pwynt ynglŷn â diffyg geiriau ar y deunyddiau ei godi yn y mwyafrif helaeth o'r grwpiau gyda 2 o'r grwpiau yn cyfeirio at 'Nike' – sydd bellach yn cael ei adnabod trwy symbol – ond fod y geiriau 'Nike' wedi bod yno am flynyddoedd i ddechrau. Awgrymodd rhywun arall ei fod yn ymddangos fel rhyw fath o "secret society".

Roedd grŵp Caerdydd yn gyfarwydd â gweld y deunyddiau ond yn ansicr am eu hystyr ac roedd grwpiau Aberteifi a Wrecsam yn fwy cyfarwydd gyda deunyddiau blaenorol. Roedd mynychwyr grŵp Llangefni yn ymwybodol iawn o'r ymgyrch "dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg" ac o'r farn fod yr ymgyrch honno'n un llwyddiannus.

Roedd y mwyafrif i weld yn ddigon bodlon gyda lliwiau'r arwyddion ac ati, ac roedd y gefnogaeth fwyaf i'r bathodynau (gan eu bod yn cyfeirio at yr unigolyn yn hytrach na'r busnes). Roedd hefyd derbyniad gwresog i'r bathodynau dysgwr - gan fod ysgrifen arnynt.

Roedd grŵp Wrecsam yn croesawu'r deunyddiau am eu bod "yn help mewn tref sydd â delwedd Seisnig".

Roedd llawer o'r mynychwyr di-Gymraeg yn y grwpiau heb unrhyw fath o ymwybyddiaeth o'r deunydd na'r ymgyrchoedd a doedd dim syniad ganddynt am bwrpas y deunyddiau.

Roedd y mwyafrif helaeth o'r grwpiau yn dweud nad oeddynt yn gwybod ym mhle i gael gafael ar y deunyddiau pe bai nhw'u hangen.

Awgrymiadau pellach:

- *"Mae angen marchnata yn yr ysgolion fel bod plant a phobl ifanc yn tyfu fyny efo'r logos ac yn gwybod beth maen nhw'n feddwl"*
- *"Dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg wneud mwy i ddweud wrth bobl tu allan i Gymru am fodolaeth yr Iaith Gymraeg"*
- *"Byddai'n braf derbyn arwyddion mwy cadarn a pharhaol i roi fyny - wedi eu gwneud o fetel neu blastig caled"*

#### 4.5. Cwestiwn 5

**Pa hyfforddiant yn gysylltiedig gyda'r defnydd o'r Gymraeg mewn busnes sydd ar gael, neu sydd ei angen yn yr ardal?**

Roedd ymwybyddiaeth y mynychwyr am ddarpariaeth gwersi Cymraeg lleol yn amrywio yn sylweddol, ac efallai mai dyma le oedd y pegynnu mwyafrif

amlwg rhwng De a Gogledd. Roedd mynychwyr grwpiau Pwllheli, Llangefni, Llandudno a Dinbych yn nodi fod digonedd o ddarparwyr cyrsiau Cymraeg da ar gael yn lleol. Nid oedd mynychwyr grwpiau Caerfyrddin, Aberhonddu, Aberteifi ac Aberystwyth/Aberaeron yn ymwybodol o ddarpariaeth gwersi Cymraeg yn lleol.

Fe nododd 4 o'r grwpiau y byddai cyrsiau ymwybyddiaeth iaith yn ddefnyddiol iawn, ac y gallai arwain at fwy o bobl yn mynd ymlaen i ddysgu'r iaith hefyd.

Fe glywyd canmoliaeth benodol i gyrsiau yn Nant Gwrtheyrn, Coleg Llysfasi, a Menter iaith Sir Ddinbych. Hefyd roedd rhai o fynychwyr grŵp Dinbych oedd yn ddi-gymraeg neu'n dysgu yn rhoi canmoliaeth uchel iawn i becyn 'Over the Counter' gafodd ei ddefnyddio gyda busnesau'r dref ymlaen llaw i'r Eisteddfod Genedlaethol, a bod hwn wedi codi ymwybyddiaeth a diddordeb yn yr iaith ymysg busnesau'r dref. Fodd bynnag, roedd teimlad eu bod wedi colli cyfle trwy beidio cael dilyniant ar ôl cyfnod yr Eisteddfod, ac y byddai cyrsiau pellach fymryn yn fwy ymestynnol wedi gallu cynnal y diddordeb/momentwm dros gyfnod hirach.

Fe nododd un o fynychwyr grŵp Wrecsam fod ganddo fentor trwy'r rhaglen Gwir Farchnata, Menter a Busnes i'w gynorthwyo i ddatblygu ei fusnes bwyd ond fod y person hwnnw wedi cynorthwyo llawer gyda materion Cymraeg – yn anfwriadol - o safbwynt ymwybyddiaeth iaith a marchnata dwyieithog, a bod hyn wedi bod yn fonws.

Roedd mynychwyr nifer o'r grwpiau yn datgan pryder am gost cyrsiau Cymraeg ac yn teimlo y dylai cyrsiau rhatach fod ar gael. Fe ddywedodd un person oedd newydd sefydlu busnes fod cyrsiau Cymraeg yn mynd i gostio tair gwaith yn fwy iddi nag oedden nhw pan oedd hi'n ddi-waith - ac roedd hyn yn dipyn o ergyd ar ben y gost o sefydlu'r busnes yn y lle cyntaf.

Roedd un o'r mynychwyr wedi bod yn byw yn Sbaen yn rhoi gwersi Saesneg i bobl ddi-waith oedd yn ceisio swyddi yn y diwydiant twristiaeth. Dywedodd fod y Llywodraeth yn talu am 440 awr o hyfforddiant ar gyfer rôl benodol o fewn y diwydiant e.e. derbynnydd neu weinydd, a bod hyn yn help mawr i'r di-waith wella eu sgiliau a chael swydd. Roedd hyn yn cydnabod fod iaith arall yn sgil ac fe awgrymwyd y dylai'r Cynulliad wneud rhywbeth tebyg o safbwynt y Gymraeg.

Mae'n amlwg fod amseru cyrsiau yn rhywbeth sydd o bwys i fusnesau trwy Gymru. Gofynnodd llawer o'r mynychwyr am hyblygrwydd o ran amseru cyrsiau Cymraeg a chwynodd nifer o fusnesau bod cyrsiau yn ystod y dydd ddim yn eu siwtio a'u bod methu fforddio colli staff yn ystod y dydd. Roedd eraill yn nodi'r angen i gael darpariaeth yn y gweithle. Roedd cwpwl o awgrymiadau hefyd am gael hyfforddiant amser cinio - yng nghwmni bobl busnes eraill.

Clywyd am un enghraifft benodol o fewn grŵp Dinbych lle byddai perchennog busnes di-Gymraeg yn mynd i gael cinio gyda ffrind oedd yn siarad Cymraeg

a'u bod yn 'gorfod' archebu'r bwyd yn Gymraeg – fel ffordd o ddysgu rhywbeth ymarferol. Roedd hi'n gweld hwn yn help mawr.

Fe nododd un grŵp y byddai mynediad i feddalwedd cyfieithu ar y we yn ddefnyddiol dros ben.

Fe awgrymodd un grŵp y dylid targedu bobl sy'n gweinyddu grwpiau busnes - gan fod y rhain mewn sefyllfa i ddylanwadu ar fusnesau eraill o ran defnydd o'r iaith a'r ymwybyddiaeth ohoni.

Ni fu llawer o drafod am gyrsiau cyfrwng Cymraeg i fusnesau. Fe nodwyd canmoliaeth i gyrsiau Croeso Cymru a bod staff yn medru eu gwneud yn Gymraeg – ond roedd eraill yn betrusgar o wneud hyfforddiant cyfrwng Cymraeg oni bai eu bod wedi cael addysg cyfrwng Cymraeg.

Fe nodwyd eto y byddai mwy o barodrydd gan berchnogion neu staff ifanc i fynychu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd bobl yn ymwybodol fod 'drop out rate' o gyrsiau Cymraeg yn uchel - yn enwedig ymysg gweithwyr sector cyhoeddus, ac roedd yna deimlad fod iaith yn beth anodd ei dysgu. Yn gyffredinol fodd bynnag, roedd agweddau eithaf positif tuag at ddysgu rhywfaint o'r iaith - yn enwedig mewn perthynas ag ychwanegu gwerth i'w busnes, a derbyniwyd sylwadau megis:

“Mae defnyddio dwy iaith yn ehangu apêl y busnes” (Aberhonddu)

“Mae rhai busnesau yn denu siaradwyr Cymraeg am fod nhw'n cynnig gwasanaeth Cymraeg” (Aberystwyth)

“Mae'n bwysig i'r busnes fod ni'n medru cynnig dewis iaith wrth ateb y ffôn” (Caerfyrddin)

- 5. Crynodeb o'r prif themâu ac agweddau amlygwyd yn y grwpiau ffocws**
- 5.1 Mae cydnabyddiaeth eang fod yr iaith Gymraeg yn cynnig mantais fasnachol/economaidd i fusnesau sector preifat.
  - 5.2 Defnydd llafar yw'r defnydd mwyaf a wneir o'r iaith o fewn busnesau ar hyn o bryd, sydd yn pwyntio at angen am fesurau penodol i annog defnydd ehangach o'r iaith yn weledol, yn ysgrifenedig ac fel "iaith busnes".
  - 5.3 Mae awydd cyffredinol i wneud defnydd ehangach o'r iaith o fewn busnesau ond ar yr un pryd mae diffyg gallu yn creu rhwystredigaeth ac felly mae angen anogaeth a chefnogaeth er mwyn hwyluso hynny ac er mwyn manteisio ar yr ewyllys da.
  - 5.4 Mae rhai cyflogwyr yn rhoi gwerth ariannol ar sgiliau dwyieithog ac yn fodlon talu premiwm i staff sy'n medru'r Gymraeg.
  - 5.5 Mae diffyg ymwybyddiaeth ymysg y busnesau ynghylch yr hyn mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill eisoes yn medru ei ddarparu i'w cynorthwyo gyda materion yn ymwneud â'r Gymraeg.
  - 5.6 Mae diffyg ymwybyddiaeth am ddeunyddiau iaith Gwaith a chryn feirniadaeth am rai o'r deunyddiau - er bod cefnogaeth i'r egwyddor.
  - 5.7 Dylid targedu pobl ifanc mewn busnes o safbwynt annog defnydd ehangach o'r iaith gan fod mwy ohonynt wedi derbyn addysg Gymraeg a'u bod yn fwy ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd.
  - 5.8 Dylid targedu busnesau newydd (cyn iddyn nhw ddechrau) o safbwynt darparu cymorth gyda dwyieithrwydd – gan mai dyma pryd mae busnesau yn teimlo fod y pwysau mwyaf arnynt o ran amser ac o ran costau. Dyma hefyd yw'r adeg pryd maent eisiau sefydlu delwedd, cynhyrchu deunyddiau marchnata cychwynnol, ac ati.
  - 5.9 Mae mewnfudwyr a dysgwyr yn ymddangos yn fwy cefnogol i ehangu'r defnydd o'r iaith o fewn eu busnesau na nifer o Gymry nad ydynt yn siarad Cymraeg.
  - 5.10 Mae mewnfudwyr a dysgwyr hefyd yn ddihyder ynghylch defnydd 'addas' o'r iaith o fewn eu busnes.
  - 5.11 Mae rhai sectorau yn draddodiadol llai tebygol o wneud defnydd o'r iaith Gymraeg nac eraill, ac mae angen rhoi ystyriaeth i ble fyddai unrhyw fuddsoddiad yn cael yr effaith mwyaf a'r gwerth gorau am arian.
  - 5.12 Mae ardaloedd daearyddol yn amrywio o safbwynt y galw am wasanaethau dwyieithog, o ran gallu busnesau i ddarparu gwasanaethau

dwyieithog, a'r gefnogaeth sydd ar gael i gynorthwyo busnes sy'n dymuno bod yn fwy dwyieithog.

- 5.13 Er bod cefnogaeth eang i ehangu'r defnydd o'r iaith o fewn busnesau a'u bod yn gweld yr iaith fel mantais fasnachol - mae busnesau yn parhau i weld yr iaith fel cost (yn hytrach na buddsoddiad), boed hynny'n arian neu amser.
- 5.14 Mae diffyg sgiliau dwyieithrwydd a/neu ddiffyg hyder mewn sgiliau dwyieithrwydd o fewn y busnesau yn llesteirio defnydd ehangach o'r iaith.
- 5.15 Nid yw busnesau yn gwybod digon am broffil eu cwsmeriaid o safbwynt darparu gwasanaeth dwyieithog addas a sut mae cwsmeriaid yn ymateb i ddwyieithrwydd.
- 5.16 Mae angen mesurau ychwanegol o safbwynt cefnogaeth, gweithredu ac ymchwil er mwyn sicrhau defnydd ehangach o'r Gymraeg o fewn y sector preifat.
- 5.17 Mae angen datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu ac mae cyflogwyr angen cymorth i fesur sgiliau Cymraeg gweithwyr a darpar weithwyr yn arbennig wrth recriwtio staff i swyddi ble mae'r Gymraeg yn allweddol.

## 6. Ystyriaethau Polisi

### 6.1. Sut mae casgliadau'r ymchwil yn perthnasu i bolisi sector preifat presennol Bwrdd yr Iaith Gymraeg?

Mae Strategaeth Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn nodi mai *“un o brif amcanion iaith Pawb - cynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer creu Cymru ddwyieithog yw ysgogi'r cynnydd o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd pob-dydd”*.

Mae camau breision ac amlwg wedi eu cymryd o fewn y sector cyhoeddus o ran cynlluniau iaith, ehangu gwasanaethau dwyieithog, ac o safbwynt gweithdrefnau'r Cynulliad ei hun, ond mae'n cael ei gydnabod fod sicrhau cynnydd o fewn y sector preifat yn dalcen caletach. Fodd bynnag, mae casgliadau'r ymchwil o'r grwpiau ffocws yma yn awgrymu fod cydnabyddiaeth eang ymysg busnesau sector preifat - fod mantais economaidd o ddefnyddio'r Gymraeg, a bod cryn barodrwydd i wneud defnydd ehangach ohoni. Mae'n bosib fod datblygiadau o fewn y sector cyhoeddus a'r sector addysg Gymraeg a gwaith y Bwrdd, y Mentrau Iaith, ac eraill, yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r sector preifat. Beth bynnag fo'r rheswm, os yw'r galw yno, mae angen sicrhau fod strategaeth Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn medru ymateb mewn ffordd effeithiol a fydd yn sicrhau'r cynnydd mwyaf posib o safbwynt defnydd o'r iaith o fewn busnesau yng Nghymru.

Mae tri phrif nod Strategaeth Sector Preifat Bwrdd yr Iaith yn cyfeirio at:

- 2.1. *Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y Sector Preifat gan gwmnïau mawrion sy'n arwain y farchnad a chwmnïau bach a chanolig eu maint fel ei gilydd*
- 2.2. *Normaleiddio defnyddio'r Gymraeg yn y Sector Preifat gan reolwyr, staff a chwsmeriaid*
- 2.3. *Rhoi cyngor a chymorth ymarferol i fusnesau sy'n dymuno datblygu gwasanaethau dwyieithog.*

Mae'r ymchwil grwpiau ffocws yn cyffwrdd ar y tair elfen hyn ac yn cynnig awgrymiadau polisi fyddai'n hwyluso eu gweithrediad.

O safbwynt y cynulleidfaoedd targed mae'r ymchwil yn cadarnhau fod angen gwaith pellach o safbwynt: y Gymraeg fel iaith y cwsmer, y Gymraeg fel iaith fusnes, a bod angen cymorth a chefnogaeth bellach ar gwmnïau sector preifat.

Mae cwmnïau bach a chanolig sydd â pherchnogion sy'n gefnogol i'r iaith a/neu sydd â nifer o staff yn siarad Cymraeg yn barod, yn un o gynulleidfaoedd targed y strategaeth bresennol ac fe awgrymir fod modd cynyddu defnyddio'r Gymraeg yn y grŵp yma yn haws ac yn gynt na gyda chwmnïau eraill. Fodd bynnag, mae'r ymchwil yma yn awgrymu fod nifer o faterion amrywiol a chymhleth yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y

grŵp targed yma a bron nad oes anghenion unigryw gyda phob cwmni. Felly mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i effeithiolrwydd mesurau a rhaglenni cymorth i'r grŵp targed yma, ac i sut mae cyfathrebu gyda'r grŵp yn gyffredinol.

Mae'r ymchwil hefyd yn cadarnhau ei fod yn briodol fod Strategaeth Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn edrych ar anghenion o safbwynt cwsmeriaid, a thra bod rôl i annog cwsmeriaid i ofyn am wasanaethau Cymraeg, mae'r ymchwil yma yn awgrymu fod angen canolbwyntio ar weithio gyda busnesau er mwyn creu'r awyrgylch/lleoliad gwaith sy'n ei wneud yn amlwg i'r cwsmeriaid eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yno. Mae cynyddu'r defnydd gweledol a llafar o'r iaith ynghyd ag effeithiolrwydd ymgyrchoedd megis Iaith Gwaith yn allweddol yn hyn o beth.

Tra bod casgliadau'r grwpiau ffocws yn gorwedd yn eithaf cyffyrddus gyda nod ac amcanion Strategaeth Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg drwyddi draw, efallai fod mwy o gwestiynau yn codi mewn perthynas â dulliau gweithredu'r strategaeth a sut mae'r rheini yn cyfarfod anghenion busnesau sector preifat.

Fe gyfeirir yn y strategaeth at yr awydd i weithio mewn partneriaeth. Tra'n cydnabod yr angen i daflu'r rhwyd yn eang o ran cydweithio posib, mae'r ymchwil yn awgrymu fod lle i fod llawer mwy penodol o safbwynt y math o gydweithio bydd yn cyfrannu at gyflawni nod y strategaeth. Er enghraifft, derbyniwyd sylw yn ystod yr ymchwil fod rhai darparwyr gwasanaethau busnes yn methu delio â busnesau yn ddwyieithog.

Mae'r ystod o gymorth ymarferol sy'n cael eu rhestru yn y strategaeth yn ymddangos yn berthnasol o safbwynt yr anghenion amlygwyd yn y grwpiau ffocws, er bod lle i addasu a datblygu'r rhain yn sgil parodrwydd y busnesau i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith. Awgrymir fod lle hefyd i rai elfennau fod yn fwy effeithiol e.e. Iaith Gwaith. Mae galw am rai gwasanaethau ychwanegol ac mae angen gwirioneddol i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth ymarferol sydd yn cael ei gynnig eisoes.

## **6.2. Awgrymiadau am addasiadau a newidiadau i bolisi sector preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwil.**

Mae hyrwyddo dwyieithrwydd fel mantais fasnachol eisoes yn greiddiol i Strategaeth Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r ymchwil grwpiau ffocws yn awgrymu fod cydnabyddiaeth eang i hynny ymysg busnesau ond fod lle i gryfhau'r neges trwy gyflwyno gwybodaeth ffeithiol. Awgrymir felly fod angen sicrhau fod tystiolaeth o'r Grŵp Iaith Economi a'r Is-grŵp Ymchwil yn arbennig, ac unrhyw dystiolaeth arall, yn cael ei gyflwyno mewn modd rhagweithiol i'r sector preifat.

Mae cynyddu'r defnydd o'r iaith yn weledol ac ysgrifenedig o fewn busnesau hefyd yn flaenllaw o fewn Strategaeth Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Awgryma'r ymchwil grwpiau ffocws fod llawer o ewyllys dda ymysg busnesau i weithredu ar yr elfennau hyn ac mae angen rhoi ystyriaeth i gryfhau'r

ddarpariaeth yn sylweddol ar gyfer cyflawni hyn. Law yn llaw ag ymgyrch gref i godi ymwybyddiaeth am y math o gymorth gallai Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill ei ddarparu mae angen sicrhau adnoddau digonol rhag siomi busnesau ac mae angen mwy o weithredu uniongyrchol gyda busnesau er mwyn eu hannog a'u cynorthwyo i wneud defnydd ehangach o'r iaith. Mae'n amlwg fod mesurau fel grantiau busnes, gwasanaethau cyfieithu ac argaeledd arwyddion a deunyddiau dwyieithog ac ati, yn uchel iawn ar restr siopa busnesau.

Mae'r ymchwil grwpiau ffocws yn awgrymu fod angen i Strategaeth Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg:

- Ganolbwyntio ymdrechion ar fusnesau newydd sydd yn y broses o gael eu sefydlu
- Ganolbwyntio ymdrechion hefyd ar fusnesau pobl ifanc sy'n ymddangos yn fwy ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd
- Ddatblygu perthynas mwy gweithredol gyda nifer llai o bartneriaid sector preifat yn arbennig o safbwynt cael gwell ffocws ar ddarparu'r elfennau cymorth ymarferol

Mae Strategaeth Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg eisoes yn nodi'r angen i gydweithio gyda hyfforddwyr ac ymgyngorwyr busnes i ddatblygu hyfforddiant i fusnesau trwy gyfrwng y Gymraeg. Fe awgryma'r ymchwil grwpiau ffocws fod hefyd angen rhoi ystyriaeth i bontio rhwng y maes dysgu Cymraeg a busnesau, ac i gynorthwyo gyda'r broses o sicrhau fod darpariaeth addas ar gael i fusnesau a'u bod yn ymwybodol o unrhyw ddarpariaeth sydd ar gael.

Mae angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ddarbwylllo'r Cynulliad ac eraill fod angen hyrwyddo'r iaith Gymraeg fel sgil mae busnesau yng Nghymru yn dymuno'i gweld yn cael ei ddatblygu. Mae'n bwysig fod y neges yma yn greiddiol i bolisiau gwahanol ddarparwyr megis; darparwyr cyngor gyrfa, datblygwyr sgiliau a hyfforddiant ayyb.

Fe ellid rhoi ystyriaeth i ddatblygu adnoddau neu raglenni ynghlwm â hyn e.e.:

- Ehangu'r ddarpariaeth gwersi Cymraeg am ddim i'r di-waith
- Sefydlu un cynllun cymhwyster cenedlaethol byddai'n galluogi i gyflogwyr fesur safon sgiliau iaith eu gweithwyr – gan fod nifer o gyflogwyr wedi nodi eu bod angen cymorth i asesu sgiliau Cymraeg y gweithlu yn enwedig os ydynt yn ddi-gymraeg eu hunain.

Mae adran 'ymchwil ac awdit' Strategaeth Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn amlinellu ystod o feysydd ymchwil posib ac mae'r ymchwil grwpiau ffocws wedi amlygu rhestr o bynciau posib yn ogystal sy'n cael eu rhestru yn Adran 8 yr adroddiad yma.

Mae'r ymchwil grwpiau ffocws yn cadarnhau fod galw sylweddol am y math o wasanaethau a nodir o dan 'cymorth ymarferol' Strategaeth Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Cyfeiriwyd eisoes at yr angen i hyrwyddo'r ddarpariaeth yn well, ac fe awgrymir ymhellach fod angen rhoi gwasanaethau

ychwanegol, ac fe gyfeirir at hynny yn Adran 7 yr adroddiad yma. Awgrymir yn gryf fod angen ail edrych ar elfennau o'r ymgyrch Iaith Gwaith a hefyd rhoi ystyriaeth iddi fel ymgyrch tymor hir.

### **6.3. Rhestr o argymhellion polisi i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn deillio o'r ymchwil grwpiau ffocws:**

- 6.3.1. O safbwynt cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y sector preifat mae angen targedu perchnogion busnesau sy'n siarad Cymraeg er mwyn sicrhau'r cynnydd mwyaf gyda'r adnoddau sydd ar gael.
- 6.3.2. Mae angen rhoi ystyriaeth benodol i sut mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyfathrebu gyda busnesau sector preifat yn uniongyrchol a thrwy'r Mentrau Iaith.
- 6.3.3. Mae angen rhoi mwy o sylw i sut mae helpu busnesau i greu awyrgylch lle mae'n amlwg i gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg fod nhw'n gallu defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn y busnes ac mae hyn yn cynnwys cydlynu perthnasedd ymgyrchoedd megis 'Iaith Gwaith', 'Mae gen ti ddewis', ac ymdrechion pellach.
- 6.3.4. Mae angen dwysau ymgyrchoedd i gynyddu'r defnydd gweledol a llafar o'r iaith Gymraeg gan roi ystyriaeth i unrhyw anghenion adnoddau fyddai ynghlwm â hynny.  
Ynghlwm â'r pwynt yma mae angen bod yn fwy rhagweithiol wrth gynorthwyo ac annog busnesau i wneud defnydd ehangach o'r iaith Gymraeg.
- 6.3.5. Mae angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg geisio dylanwadu ar adrannau o'r Cynulliad sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau cefnogaeth busnes i geisio sicrhau eu bod nid yn unig yn darparu gwasanaeth dwyieithog ond eu bod hefyd yn ymwybodol o sut mae cynorthwyo busnesau (busnesau newydd yn arbennig) i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu busnesau.
- 6.3.6. Mae angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg godi ymwybyddiaeth ymysg busnesau sector preifat o'r cymorth ymarferol maent eisoes yn darparu i fusnesau gan roi ystyriaeth i'r angen am adnoddau ychwanegol pe bai'r galw yn cynyddu'n sylweddol.
- 6.3.7. Mae angen cymryd camau i bontio rhwng y maes dysgu Cymraeg a busnesau ac i sicrhau fod darpariaeth addas at ddibenion busnesau ar gael. Mae hefyd angen sicrhau fod busnesau yn ymwybodol o'r hyfforddiant sydd ar gael yn lleol.
- 6.3.8. Er mwyn gwireddu amcanion strategaeth sector preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg mae angen i'r Bwrdd ddatblygu perthynas mwy ystyrion gyda nifer llai o bartneriaid sector preifat allai gynorthwyo yn uniongyrchol i ddatblygu a darparu rhai o'r gwasanaethau.
- 6.3.9. Mae angen pwyso ar y Cynulliad i gydnabod yr iaith Gymraeg fel sgil a bod y neges yma yn rhoadru trwy adrannau perthnasol y sefydliad.
- 6.3.10. Ynghlwm â'r pwynt blaenorol - os ceir gwell cydnabyddiaeth fod yr iaith

- Gymraeg yn sgil fyddai'n cynorthwyo pobl i gael gwaith - mae lle i  
bwyso i  
ehangu'r ddarpariaeth gwersi Cymraeg am ddim i'r di-waith.
- 6.3.11 Mae angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ystyried targedu adnoddau i rai  
ardaloedd penodol ac ymchwilio effeithiolrwydd tebygol sefydlu 'trefi  
Cymraeg' fel modd o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector  
preifat yn  
ehangach.
- 6.3.12 Mae angen hefyd i roi ystyriaeth i sut mae cysylltu'r Gymraeg gyda  
datblygiadau adfywio ehangach (trwy gydweithio ac eraill) fel bod yr  
iaith  
sylw  
Gymraeg yn cael ei chysylltu gyda llwyddiant a datblygiad, gan dalu  
arbennig i gyfleoedd ariannu Ewropeaidd megis y rhaglen  
cydgyfeiriant.
- 6.3.13 Mae angen cloriannu, pecynnu a lledaenu'r neges yn rhagweithiol  
ymysg  
busnesau am fanteision economaidd dwyieithrwydd a'r iaith Gymraeg i  
fusnesau.
- 6.3.14 Mae angen rhoi sylw arbennig i anghenion busnesau newydd a  
busnesau  
bobl ifanc cyn ac wrth iddyn nhw sefydlu. Bydd hyn yn golygu  
cydweithio  
gyda'r darparwyr cymorth busnes ac efallai sbarduno gweithgaredd  
ychwanegol (trwy geisiadau rhaglenni Ewropeaidd efallai) pe bai  
diffygion amlwg yn y gweithdrefnau presennol.
- 6.3.15 Mae angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynorthwyo i ddatblygu nifer fach  
o  
gyrsiau peilot cyfrwng Cymraeg ar gyfer busnesau sector preifat –  
mewn  
sectorau penodol. Roedd mynychwyr y grwpiau ffocws at ei gilydd yn  
bryderus am fynychu cyrsiau cyfrwng Cymraeg - eto i gyd roedd y  
rheiny fynychodd gyrsiau "Naws am Le" wedi eu mwynhau gan ddweud  
eu bod yn "addas". Efallai nad yw'r awgrym yma yn brif flaenoriaeth  
ond os am newid agweddau'r gweithlu tuag at hyfforddiant cyfrwng  
Cymraeg mae'n rhaid cymryd camau bychain.

## 7. Awgrymiadau am weithredu pellach

Mae'r adran yma yn awgrymu gweithredu pellach yn unol â'r themâu nodwyd yn adran 5 o'r adroddiad yma.

### 7.1. Cydnabyddiaeth eang fod yr iaith Gymraeg yn cynnig mantais fasnachol / economaidd

#### 7.1.1. Beth sydd angen ei wneud?

- Lledaenu'r neges yn ehangach o fewn y sector preifat
- Sicrhau modelau rôl addas o fewn y sector preifat er mwyn amlygu a hyrwyddo manteision masnachol dwyieithrwydd ac er mwyn annog mwy o gwmnïau i weithredu
- Darparu tystiolaeth ffeithiol gadarn am werth economaidd yr iaith
- Llunio rhaglen/ymgyrch fwriadol i dargedu'r sector gyda'r neges yma

#### 7.1.2. Sut allai hyn gael ei wneud?

- Mae'n bwysig fod y neges yn cael ei throsglwyddo o safbwynt economaidd yn hytrach nag o bersectif ieithyddol. Efallai felly y dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg gyflawni'r gwaith yma yn anuniongyrchol – trwy sefydliadau sy'n gweithio yn agos gyda busnesau – yn arbennig busnesau siaradwyr Cymraeg?
- Mae angen amlygu gwaith y Grŵp Iaith Economi a'r Is-grŵp Ymchwil yn arbennig (sydd yn y broses o gael ei sefydlu) fel modd o ganfod tystiolaeth ffeithiol i gadarnhau'r negeseuon sydd angen eu trosglwyddo.
- Cydweithio gydag asiantaethau menter, y mentrau iaith a'r darparwyr cefnogaeth busnes i adnabod modelau rôl addas.
- Llunio ymgyrch/rhaglen benodol i drosglwyddo'r negeseuon i fusnesau sector preifat trwy:
  - a) weithgaredd sydd yn medru bod yn rhan o gyfarfod sy'n digwydd beth bynnag, megis Clwb Busnes, Fizz a Biz, Cwlwm Busnes Cymru, ayyb
  - b) Cyfres o ddigwyddiadau penodol yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o fanteision economaidd yr iaith i fusnesau - gan anelu at yr haenen fwyaf blaenllaw ac agored. (Byddai'r cyrsiau ymwybyddiaeth iaith yn medru ymdrin â hyn ar lefel mwy sylfaenol a chyffredinol.)

#### 7.1.3. Argymhellion Polisi perthnasol

- Mae angen rhoi ystyriaeth benodol i sut mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyfathrebu gyda busnesau sector preifat yn uniongyrchol a thrwy'r Mentrau Iaith.
- Mae angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg geisio dylanwadu ar adrannau o'r Cynulliad sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau cefnogaeth busnes i geisio sicrhau eu bod nid yn unig yn darparu gwasanaeth dwyieithog ond eu bod hefyd yn ymwybodol o sut mae cynorthwyo busnesau (busnesau newydd yn arbennig) i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu busnesau.

- Mae angen pwysu ar y Cynulliad i gydnabod yr iaith Gymraeg fel sgîl a bod y neges yma yn rhaeadru trwy adrannau perthnasol y sefydliad.
- Mae angen cloriannu, pecynnu a lledaenu'r neges yn rhagweithiol ymysg busnesau am fanteision economaidd dwyieithrwydd a'r iaith Gymraeg i fusnesau.

## **7.2. Angen ehangu defnydd o'r iaith yn weledol, yn ysgrifenedig ac fel iaith Fusnes**

Mae nifer o'r mesurau 'cymorth ymarferol' mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg eisoes yn cynnig yn medru cyfrannu at hyn:

### 7.2.1. Beth sydd angen ei wneud?

- Codi ymwybyddiaeth o'r hyn mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg eisoes yn ei ddarparu
- Datblygu ac ehangu'r gwasanaeth Llinell Gyswilt
- Targedu'r grantiau busnes yn fwy effeithiol
- Datblygu hyfforddiant at faterion ymarferol megis marchnata dwyieithog a recriwtio staff dwyieithog
- Hyrwyddo hyfforddiant gwybodaeth iaith a datblygu sgiliau ieithyddol sydd eisoes ar gael, a datblygu hyfforddiant newydd yn unol ag anghenion y sector preifat.
- Diwygio elfennau o ymgyrch Iaith Gwaith

### 7.2.2. Sut allai hyn gael ei wneud?

O safbwynt annog defnydd ehangach o wasanaethau cymorth ymarferol y Bwrdd mae'n rhaid cydnabod efallai fod oblygiadau adnoddau ynghlwm â hyn o safbwynt cost a sgiliau – pe bai cynnydd sylweddol yn y galw.

- Cynllunio ymgyrch/rhaglen fwriadol i hysbysu busnesau o'r gwasanaethau mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg eisoes yn cynnig. Fe allai hyn gynnwys elfen o ddefnyddio'r Wasg ynghyd â gwybodaeth benodol i'r partneriaid a enwir o fewn y Strategaeth Sector Preifat. Efallai fodd bynnag fod angen sianelu'r egni trwy'r asiantaethau hynny sy'n deall y cyd-destun orau ac sy'n medru darparu'r wybodaeth yn ddwyieithog.
- Targedu'r grantiau busnes i fusnesau newydd a hefyd i bobl ifanc gan mai dyma'r carfannau sydd fwyaf parod i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Mae'n bwysig fod y cymorth yn cael ei ddarparu yn ystod y broses cyn dechrau busnes. Mae prosiectau megis Potentia (sydd yn y broses o gael ei brif ffrydio) wedi dysgu gwersi pwysig yn hyn o beth a ddylid anelu i adeiladu ar y gwersi hynny trwy weithio gydag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth a'r swyddogion prif-ffrydio.
- Comisiynu sesiynau gwybodaeth/hyfforddi ar agweddau busnes cyffredinol megis marchnata, a recriwtio - yn arbennig felly o bersbectif dwyieithrwydd. Rhain i'w darparu gan rwydwaith o ddarparwyr safonol allai fod yn gyfuniad o swyddogion Mentrau Iaith a darparwyr hyfforddiant sector breifat.

- Roedd tipyn o alw i ehangu gwasanaeth cyfieithu'r Llinell Gyswllt. Mae oblygiadau adnoddau ynghlwm â hyn wrth reswm ac efallai fod angen cynllunio system lle mae:
  - hyn a hyn o eiriau am ddim
  - mwy o eiriau am £? (graddfa gystadleuol)
  - mwy fyth o eiriau am £? (graddfa fwy masnachol)Os nad yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei hun mewn sefyllfa i godi ffioedd efallai dylid meddwl yn nhermau cydweithio gydag asiantaeth gyfieithu (sy'n dosrannu gwaith i rwydwaith o gyfieithwyr) neu fynd trwy broses tendro gyda chwmnïau cyfieithu.  
Mae angen hefyd i godi ymwybyddiaeth am Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac i wneud busnesau yn ymwybodol o le mae help cyfieithu ar gael yn ehangach.
- Gan fod strategaeth ymwybyddiaeth iaith yn bodoli (ac adnoddau sylweddol yn y broses o gael eu datblygu), a'r busnesau a holwyd fel rhan o'r ymchwil yma yn cadarnhau'r angen amdano, mae angen i rywun gymryd arweiniad o safbwynt addasu a darparu ar gyfer y sector preifat. Fe fydd angen gogwydd ychydig yn wahanol i'r hyn ddefnyddir gyda'r sector cyhoeddus, ac efallai mai sut a phwy sydd yn ei ddarparu bydd y prif ystyriaethau. Byddem yn awgrymu fod unrhyw elfennau wyneb yn wyneb yn cael eu darparu gan rywrai sy'n deall safbwynt y sector preifat.
- Bydd y Bwrdd (trwy'r Mentrau Iaith) yn ymwybodol o'r hyfforddiant datblygu sgiliau Cymraeg sydd ar gael yn y gwahanol ardaloedd o Gymru ar hyn o bryd (o safbwynt unigolion a busnesau). Os yw'r wybodaeth honno ar gael, mae angen lledaenu'r wybodaeth i fusnesau lleol – trwy'r mentrau iaith.  
Awgrymir fod angen ymchwilio i'r ddarpariaeth sydd ar gael i fusnesau yn benodol a pha mor berthnasol yw'r ddarpariaeth honno i'w anghenion.  
Mae angen lledaenu unrhyw arfer da sy'n cael eu hadnabod a/neu gomisiynu hyfforddiant addas.  
Mae angen rhoi ystyriaeth i helpu busnesau gyda'r gost o ddatblygu sgiliau Cymraeg o fewn y cwmni, gan dderbyn byddai angen blaenoriaethu a bod yn ddewisol yn hyn o beth.
- O safbwynt iaith Gwaith mae angen rhoi ystyriaeth i gynnwys ysgrifen ar rai o'r deunyddiau

### 7.2.3. Argymhellion Polisi perthnasol

- O safbwynt cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y sector preifat mae angen targedu perchnogion busnesau sy'n siarad Cymraeg er mwyn sicrhau'r cynnydd mwyaf gyda'r adnoddau sydd ar gael.
- Mae angen dwysau ymgyrchoedd i gynyddu'r defnydd gweledol a llafar o'r iaith Gymraeg gan roi ystyriaeth i unrhyw anghenion adnoddau fyddai ynghlwm â hynny.  
Ynghlwm â'r pwynt yma mae angen bod yn fwy rhagweithiol wrth gynorthwyo ac annog busnesau i wneud defnydd ehangach o'r iaith Gymraeg.
- Mae angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg godi ymwybyddiaeth ymysg busnesau sector preifat o'r cymorth ymarferol maent eisoes yn darparu i

fusnesau gan roi ystyriaeth i'r angen am adnoddau ychwanegol pe bai'r galw yn cynyddu'n sylweddol.

- Mae angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ystyried targedu adnoddau i rai ardaloedd penodol ac ymchwilio effeithiolrwydd tebygol sefydlu 'trefi Cymraeg' fel modd o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat yn ehangach.
- Mae angen hefyd i roi ystyriaeth i sut mae cysylltu'r Gymraeg gyda datblygiadau adfywio ehangach (trwy gydweithio ag eraill) fel bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chysylltu gyda llwyddiant a datblygiad, gan dalu sylw arbennig i gyfleoedd ariannu Ewropeaidd megis y rhaglen cydgyfeiriant.
- Mae angen rhoi sylw arbennig i anghenion busnesau newydd a busnesau bobl ifanc cyn ac wrth iddyn nhw sefydlu. Bydd hyn yn golygu cydweithio gyda'r darparwyr cymorth busnes ac efallai sbarduno gweithgaredd ychwanegol (trwy geisiadau rhaglenni Ewropeaidd efallai) pe bai diffygion amlwg yn y gweithdrefnau presennol.

### 7.3. Cefnogaeth i ddatblygu sgiliau ieithyddol

Derbyniwyd nifer o sylwadau gan fynychwyr y Grwpiau Ffocws am ddiffyg hyder staff wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac fe sylwyd ar hyn o safbwynt agwedd rhai o'r mynychwyr eu hunain yn ogystal.

Mae'n amlwg fod hwn yn fater allai gael effaith sylweddol ar y defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn busnesau ac mae angen rhoi ystyriaeth i ymgyrchoedd fyddai'n cynorthwyo i gynyddu hyder mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Fe gyfeiriwyd at ddiffyg hyder mewn sawl cyd-destun, e.e.

- Bobl oedd yn hapus i siarad yr iaith ond ddim i'w defnyddio yn ysgrifenedig
- Bobl oedd wedi derbyn rhywfaint o addysg Cymraeg ond fod y cyfleoedd i'w hymarfer yn brin.
- Dysgwyr da oedd yn bryderus am fethu cynnal sgwrs gyfan yn y Gymraeg
- Siaradwyr Cymraeg rhugl oedd yn llai hyderus i ddefnyddio'r iaith yng nghyswllt busnes yn arbennig lle'r oedd llawer o dermau technegol.
- Siaradwyr Cymraeg oedd yn ddihyder i fynychu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg neu ddigwyddiad busnes cyfrwng Cymraeg.

Mae'n siŵr fod enghreifftiau o ymarfer da yn bodoli ynghlwm â datblygu hyder bobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac mae lle i ehangu'r rhain o mewn sefyllfaoedd eraill. Mae'n bosib fod angen comisiynu rhaglenni peilot er mwyn asesu beth sy'n effeithiol.

Yn y pen draw dylid meddwl yn nhermau ystod o wasanaethau fyddai'n medru cynorthwyo mewn gwahanol sefyllfaoedd.

#### 7.3.1. Beth sydd angen ei wneud?

- Adeiladu ar yr ewyllys da
- Darparu cymorth sy'n sensitif i'w anghenion

- Annog mwy o ddefnydd gweledol o'r iaith yn arbennig

### 7.3.2. Sut allai hyn gael ei wneud?

- Sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn benodol ar gyfer dysgwyr. Yn delio gyda materion megis marchnata dwyieithog, ac osgoi gelyniaethu cwsmeriaid.
- Cymorth 1:1 neu grwpiau bach – trwy'r Mentrau Iaith
- Byddai'n ddiddorol sefydlu rhaglen beilot yn paru person busnes sy'n gwneud defnydd helaeth o'r iaith yn barod, gyda dysgwr sy'n dymuno gwneud mwy. Byddai'n rhaid dewis y mentoriaid yn ofalus a hyfforddi'r mentoriaid mewn modd priodol. Gan i un o'r mynychwyr gyfeirio at raglen Interreg Gwir Farchnata (yn y sector fwyd yn benodol) efallai fod patrwm llwyddiannus yn bodoli gallai gael ei ymestyn i sectorau eraill.

Fe allai'r math yma o raglen gael defnydd ehangach yn ogystal e.e. gyda siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn gwneud defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn eu busnesau ar hyn o bryd.

### 7.3.3. Argymhellion polisi perthnasol

- Mae angen cymryd camau i bontio rhwng y maes dysgu Cymraeg a busnesau ac i sicrhau fod darpariaeth addas at ddibenion busnesau ar gael. Mae hefyd angen sicrhau fod busnesau yn ymwybodol o'r hyfforddiant sydd ar gael yn lleol.
- Er mwyn gwireddu amcanion strategaeth sector preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg mae angen i'r Bwrdd ddatblygu perthynas mwy ystyrlon gyda nifer llai o bartneriaid sector preifat allai gynorthwyo yn uniongyrchol i ddatblygu a darparu rhai o'r gwasanaethau.
- Ynghlwm â'r pwynt blaenorol - os ceir gwell cydnabyddiaeth fod yr iaith Gymraeg yn sgil fyddai'n cynorthwyo pobl i gael gwaith - mae lle i bwysu i ehangu'r ddarpariaeth gwersi Cymraeg am ddim i'r di-waith.
- Mae angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynorthwyo i ddatblygu nifer fach o gyrsiau peilot cyfrwng Cymraeg ar gyfer busnesau sector preifat - mewn sectorau penodol. Roedd mynychwyr y grwpiau ffocws at ei gilydd yn bryderus am fynychu cyrsiau cyfrwng Cymraeg - eto i gyd roedd y rheiny fynychodd gyrsiau "Naws am Le" wedi eu mwynhau gan ddweud eu bod yn "addas". Efallai nad yw'r awgrym yma yn brif flaenoriaeth ond os am newid agweddau'r gweithlu tuag at hyfforddiant cyfrwng Cymraeg mae'n rhaid cymryd camau bychain.

## 7.4. **Darparu gwasanaethau dwyieithog addas**

Yn ychwanegol i'r materion yn ymwneud ag ymwybyddiaeth iaith, mae'n amlwg fod diffyg gwybodaeth gan fusnesau am broffil eu cwsmeriaid (o safbwynt gallu a dymuniad ieithyddol) a sut mae ymateb i'r proffil hwnnw.

### 7.4.1. Beth sydd angen ei wneud?

Gwella dealltwriaeth busnes am allu ieithyddol eu cwsmeriaid, ac am safbwynt eu cwsmeriaid tuag at ddwyieithrwydd o fewn busnesau – gyda'r bwriad o'u hannog i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith o fewn eu busnesau.

#### 7.4.2. Sut allai hyn gael ei wneud?

- Yn ddelfrydol byddai hwn yn wybodaeth sy'n cael ei ddarparu fesul busnes unigol - ac efallai fod modd cynllunio rhyw fath o holiadur fyddai'n gallu cael ei lawr lwytho o wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Fel arall, fe allai weithio fesul tref/ardal a chael ei gyflawni gan y Mentrau Iaith a'i gyfleu trwy fforymau busnes lleol a/neu ei ddosbarthu i fusnesau trwy ohebiaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

#### 7.4.3. Argymhellion polisi perthnasol

- Mae angen rhoi mwy o sylw i sut mae helpu busnesau i greu awyrgylch lle mae'n amlwg i gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg fod nhw'n gallu defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn y busnes ac mae hyn yn cynnwys cydlynu perthnasedd ymgyrchoedd megis 'Iaith Gwaith', 'Mae gen ti ddewis', ac ymdrechion pellach.

## 8. Awgrymiadau ar gyfer ymchwil bellach o safbwynt y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Sector Preifat

Mae'n bwysig cynnal ymwybyddiaeth o unrhyw ymchwil sy'n berthnasol i'r maes e.e. mae'r Grŵp Iaith Economi yn y broses o ffurfioli Is-grŵp Ymchwil sydd yn edrych yn benodol ar fesurau mesur gwerth economaidd yr iaith Gymraeg. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn aelod o'r grŵp ac mae'n siŵr bydd gwybodaeth yn deillio ohono fydd yn fuddiol i Strategaeth Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Mae'r awgrymiadau am ymchwil bellach ddeilliodd o'r grwpiau ffocws hyn yn cynnwys:

- 8.1. Sut mae cwmnïau bach a chanolig eu maint yn medru derbyn gwybodaeth am broffil eu cwsmeriaid o safbwynt anghenion dwyieithog, a sut maen nhw'n darparu gwasanaethau dwyieithog addas mewn ymateb i hynny?
- 8.2. Sut mae datblygiadau fel archfarchnadoedd yn effeithio ar batrymau siopa siaradwyr Cymraeg a pha effaith mae hynny yn cael ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn busnesau bach a chanolig eu maint yn yr ardal?
- 8.3. Ydi hi'n werth targedu rhai trefi i fod yn drefi 'dwyieithog' o safbwynt cael eu hadnabod fel trefi gyda chanran uchel o fusnesau Cymraeg/dwyieithog a pha effaith fyddai hyn yn cael ar batrymau siopa cwsmeriaid, ac ar hyfywedd y busnesu eu hunain?
- 8.4. Beth yw'r rhwystrau ymarferol i fusnesau wneud defnydd llawnach o'r iaith
  - yn weledol
  - yn ysgrifenedig
  - fel iaith busnes
- 8.5. Beth yw'r rhwystrau ymarferol i fusnesau ddysgu'r iaith?
- 8.6. Beth yw argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg i fusnesau mewn gwahanol sectorau, a pa fath o sectorau y dylid targedu er mwyn sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r iaith o fewn busnesau?
- 8.7. Yng nghyswllt dysgu Cymraeg o fewn busnesau -
  - Beth yw'r ddarpariaeth bresennol?
  - Beth yw'r enghreifftiau o ymarfer da?
  - A oes angen cydlynu rhaglen benodol?
  - Sut mae hyrwyddo'r ddarpariaeth yn effeithiol?
- 8.8. Sut fyddai modd cyflwyno polisïau / arferion da o safbwynt diogelu ac ehangu dwyieithrwydd o fewn busnesau sector preifat a beth fyddai'r manteision economaidd o wneud hynny?
- 8.9. A fyddai'n werth darparu rhyw fath o wasanaeth awdit sgiliau ieithyddol neu broffil ieithyddol cwmni i fusnesau sector preifat – gyda'r bwriad o fedru awgrymu camau ymarferol syml i gynyddu dwyieithrwydd o fewn y cwmni?

## 9. Dyfyniadau ac enghreifftiau o ymarfer da

### 9.1. Dyfyniadau

Mae Adran 4 yn frith o ddyfyniadau a dderbyniwyd yn y grwpiau ffocws ac mae enghreifftiau pellach yn y cofnod cyfarfodydd yn Atodiad 2.

Nid yw'r dyfyniadau wedi cael eu dynodi i gwmnïau nac unigolion o fewn yr adroddiad yma, ond os oes dyfyniadau penodol fyddai'n ddefnyddiol at ddibenion Bwrdd yr Iaith Gymraeg – byddai Mabis yn medru olrhain y cyfranwyr a'u dilysu.

Dyma 10 o'r goreuon!

**Casgliadau o ddyfyniadau gan fynychwyr y grwpiau ffocws** (mae rhai wedi eu cyfieithu):

“Rwy'n bwriadu marchnata'r Gwesty yn gwbl ddwyieithog gan fod marchnata dwyieithog gyfystyr ac ansawdd”

“Unwaith de ni i'r Gorllewin o Gaernarfon de ni'n colli busnes gan nad yw ein gwerthwyr yn siarad Cymraeg”

“Os chi'n medru cynnig gwasanaeth dwyieithog ma' fe'r eisin ar y gacen”

“Mae yna 'renaissance' yn yr iaith Gymraeg a gallai fod buddiannau anferth i fusnesau i fod yn rhan o hynny”

“Dwi'n credu fod cwsmeriaid yn fwy ffyddlon i'r busnes am ein bod ni'n defnyddio'r Gymraeg”

“Rydy ni ddim yn hyrwyddo ein gallu dwyieithrwydd yn ddigonol. Rydy ni ddim bob amser yn sylweddoli fod e'n rhinwedd a'i fod e'n rhywbeth sy'n cynnig mantais”

“Mae'n fantais fasnachol i fod yr unig gwmni sy'n cynnig gwasanaeth dwyieithog mewn maes arbenigol, mae'n gosod ni ar wahân”

“Mae gweld un busnes yn defnyddio'r Gymraeg yn medru annog un arall i wneud - rhyw fath o peer pressure positif”

“Mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu denu at gynnyrch neu siopau sydd â sgwennu Cymraeg arnynt. Mae'n denu nhw i drio'r cynnyrch”

“Trwy dderbyn rhywfaint mwy o anogaeth a chefnogaeth trwy ddigwyddiadau megis hwn dwi'n siŵr byddai busnesau yn barod iawn i wneud defnydd ehangach o'r iaith”

### 9.2. Enghreifftiau o ymarfer da

Mae Adran 4 ac Atodiad 2 hefyd yn amlinellu beth ellir ei ystyried yn ymarfer da mewn amrywiol gyd-destunau.

Dyma rai enghreifftiau yn unig:

9.2.1 Yng nghyd-destun hyfforddiant iaith i fusnesau roedd canmoliaeth uchel i'r

pecyn "Over the Counter" ddefnyddiwyd gyda siopau tref Dinbych ymlaen

llaw i ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol.

9.2.2 Yng nghyd-destun defnyddio mwy na un iaith wrth farchnata awgrymwyd

fod busnes sy'n hysbysebu mewn tair iaith yn Wrecsam (Cymraeg, Saesneg a Phwyleg) yn denu sylw a chwsmeriaid yn sgil hynny.

9.2.3 Cyfeiriodd grŵp Pwllheli fod awyrgylch yn bodoli bellach lle mae bron yn ddisgwyliedig i holl arwyddion busnesau'r dref fod yn ddwyieithog a bod hyn yn rhywbeth i'w groesawu.

9.2.4 Cyfeiriodd aelod o grŵp Wrecsam at y ffaith fod cwmnïau blaenllaw sy'ndefnyddio'r Gymraeg yn medru bod yn beth cadarnhaol o ran sefydlu

rhyw fath o 'peer pressure' i annog eraill i ddilyn.

9.2.5 Roedd busnesau yn ardal Pwllheli yn werthfawrogol o ymweliad gan swyddog y Fenter iaith leol a amlinellodd unrhyw gymorth ymarferol oedd

ar gael trwy'r fenter. Roedd busnesau yn ardal Dinbych a Chaerfyrddin yn

talw teyrnged i'r Fenter iaith leol yno'n ogystal am ei gwaith yn hyrwyddo'r

Gymraeg a chysiau dysgu Cymraeg.

9.2.6 Roedd canmoliaeth i ddarpariaeth dysgu Cymraeg yn ardal Dinbych yn gyffredinol a chyfeiriwyd yn arbennig at Goleg Llysfasi a'r Fenter iaith.

9.2.7 Cyfeiriwyd at raglenni oedd wedi cael effaith anuniongyrchol ar ddwyieithrwydd busnesau er nad dyna oedd eu prif nod. Roedd hyn o ganlyniad i ymwybyddiaeth manteision dwyieithrwydd y sawl oedd yn gyfrifol am eu darparu e.e. mentoriaid y cynllun Interreg 'Gwir Farchnata'

## Atodiad 1 - Canllaw Trafod

### Canllaw Trafod (Discussion Guide)

<p><b>Croesawu a gosod y cyd-destun</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyflwyniad PowerPoint byr a bachog yn cyfeirio at astudiaethau achos o fusnesau sector preifat.</li> </ul>	5 munud
<p><b>Ymarfer 1 – Adnabod ein gilydd</b></p> <p>Gofyn iddyn nhw yn eu tro:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Dweud ei henw</li> <li>- Beth mae'r cwmni yn wneud</li> <li>- Nodi un hobi anarferol/annisgwyl sydd ganddynt (+ falle pasio gwrthrych anarferol o amgylch iddyn nhw gynnig beth ydyw?)</li> </ul>	8 munud
<p><b>Cwestiwn 1</b></p> <p>(a) Beth yw'r defnydd a wneir o'r Gymraeg o fewn eich busnesau chi ar hyn o bryd ac o fewn yr ardal yn ehangach?</p> <p>Cwestiynau atodol i bromptio os bydd angen:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Beth yw gallu ieithyddol eich cwsmeriaid?</li> <li>- Beth yw gallu eich staff i ddarparu gwasanaethau yn ddwyieithog?</li> </ul> <p>(b) Ym mha ffordd byddai'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eich cwmnïau yn medru cyfrannu at foddhad neu ofal eich cwsmeriaid?</p> <p>Cwestiynau atodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Pa ddefnydd o'r iaith a wneir o safbwynt marchnata?</li> <li>- Ydych chi'n ystyried yr iaith mewn perthynas â pholisïau megis recriwtio neu ofal cwsmer?</li> </ul> <p>(c) Pam fod rhai cwmnïau yn gwneud defnydd o'r Gymraeg?</p> <p>Cwestiynau atodol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Pa fanteision economaidd gallai rhywun ragweld o ddefnyddio'r Gymraeg?</li> <li>- Sut fyddai recriwtio staff dwyieithog yn cyfrannu tuag at lwyddiant eich busnes?</li> <li>- Sut fyddai marchnata dwyieithog yn dylanwadu ar eich busnes?</li> </ul>	<p>8 munud</p> <p>8 munud</p> <p>5 munud</p>

<p><b>Cwestiwn 2</b></p> <p>(a) Rhestrwch 3-5 rhwystr ymarferol rhag defnyddio'r Gymraeg o fewn eich busnesau ar hyn o bryd?</p> <p>(b) Derbyn adborth: Holi ambell un i nodi'r un prif rwystr?</p>	<p>5 munud</p> <p>5 munud</p>
<p><b>Cwestiwn 3</b></p> <p>Yn dilyn mlaen o'r adborth i'r cwestiwn blaenorol - Beth ddylai Bwrdd yr iaith Gymraeg wneud i helpu chi oresgyn y rhwystrau hyn?</p>	<p>5 munud</p>
<p><b>Cwestiwn 4</b></p> <p>Gan gyfeirio at e.e. o ddeunydd iaith Gwaith ByIG</p> <p>(a) Pa mor ymwybodol ydych chi o'r gwaith yma?</p> <p>(b) Pa ddeunydd ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol i chi?</p> <p>(c) Pa mor bwysig yw gweld y Gymraeg o fewn busnesau? (arwyddion, deunydd marchnata ac ati)</p> <p>Cwestiynau atodol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at hunaniaeth ardal?</li> <li>• Beth chi'n meddwl yw barn cwsmeriaid am hyn?</li> <li>• Sut mae'r ardal yma yn cymharu ag ardaloedd eraill?</li> </ul>	<p>3 munud</p> <p>5 munud</p> <p>5 munud</p>
<p><b>Cwestiwn 5</b></p> <p>Pa hyfforddiant yn ymwneud â'r Gymraeg mewn busnes sydd ar gael neu sydd ei angen yn yr ardal? (Cyrsiau cyfrwng Gymraeg, ymwybyddiaeth iaith)</p> <p>Cwestiynau atodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa fath o gyrsiau mae staff wedi mynychu yn y gorffennol?</li> <li>• Pa fath o anghenion sydd o fewn cwmnïau?</li> <li>• Sut maen nhw'n adnabod anghenion hyfforddi?</li> <li>• Sut maen nhw'n adnabod hyfforddwyr?</li> </ul>	<p>10 munud</p>
<p><b>Cloi</b></p>	<p>2 funud</p>

**Atodiad 2 - Cofnod llawn o sylwadau bob trafodaeth**

**Grŵp Ffocws – Aberhonddu**

## Gwesty'r Castell, Aberhonddu

Cafodd y drafodaeth ei chynnal trwy gyfrwng y Saesneg

### Cwestiwn 1

#### Defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y busnesau ac yn yr ardal yn ehangach

- Y mwyafrif o'r busnesau yn dweud nad oes llawer o alw am wasanaeth Cymraeg gan gwsmeriaid yn yr ardal honno. Mae'n drueni, ond gan eu bod yn agos at y ffin dyw'r galw ddim yno.
  - Un o'r mynychwyr yn cynrychioli papur newydd lleol yn dweud nad oedd llawer o ddefnydd o'r Gymraeg yn cael ei wneud gan y papur. Er bod hysbysebion swyddi ar gyfer e.e. y Cyngor Sir yn ymddangos yn Gymraeg, mae'r rhain yn cael eu paratoi gan y cleient a'u hanfon ar ffurf pdf, felly nid oes galw am wasanaeth cyfieithu na phrawf ddarllen gan y papur. Er hyn, mae nifer fach o aelodau staff yn gallu siarad Cymraeg.
  - Mynychwr arall yn cynrychioli cwmni dylunio graffeg – dim ond nifer fach o gleientiaid yng Nghymru – mwy yng ngwledydd eraill e.e. Almaen, Ffindir a'r Eidal
- Er nad oes llawer o alw yn lleol, roedd un busnes gwesty yn gweld potensial o ddefnyddio'r Gymraeg fel arf farchnata ac yn bwriadu manteisio ar hyn fel rhan o fuddsoddiad mawr i uwchraddio'r gwesty yn y dyfodol agos. Byddai'r Gymraeg yn rhan o ddelwedd ansawdd uchel y gwesty ar ei newydd wedd. Dylai staff fod yn gallu o leiaf dweud 'Bore da', 'croeso' ac ati. Mae un siaradwr Cymraeg ar y staff ond hoffai weld mwy (*hwn yn berchennog newydd sbon ar y gwesty, ddim yn siarad Cymraeg ei hun*). Hoffai weld y bwydlenni, arwyddion a'r wefan yn hollol ddwyieithog, fel bod ymwelwyr yn gweld eu bod yn dod i wlad hollol wahanol. Mae hyn yn arf farchnata, meddai. Hoffai fod yn gallu mynd ar y We ac archebu arwyddion 'Dim ysmygu' neu 'Dim yfed os ydych o dan 18 oed' yn ddwyieithog, ond does dim ar gael.
- Mae defnyddio'r ddwy iaith yn gallu adlewyrchu Cymreig rwydd y busnes ac felly ehangu ei apêl. Fodd bynnag, yn lleol yn Aberhonddu, mae pobl yn erbyn yr iaith Gymraeg.
- Mae'r Gymraeg i'w gweld a'i chlywed mewn llefydd fel Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r Cyngor Sir, ond ar y cyfan yn yr ardal hon, nid yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fawr ddim gan fusnesau sector preifat.
- 90% o gwsmeriaid ddim yn ddwyieithog felly mae'n gwestiwn a oes gan y Gymraeg ddim i'w gynnig i'r ardal hon  
Mae rhai, fodd bynnag, yn benderfynol o ddefnyddio'r Gymraeg, ond mwy yn nhermau marchnata na gofal cwsmer.
- Mae diffyg hyder yn broblem i rai sydd yn dysgu Cymraeg wrth siarad â siaradwyr Cymraeg rhugl, felly'r tueddiad yw peidio â defnyddio'r Gymraeg er eich bod yn gallu siarad peth. Y mwyafrif yn dweud bod siaradwyr Cymraeg yn gwerthfawrogi'r ymdrech i siarad Cymraeg hyd yn oed os nad yw'n gywir.

- Y Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith anodd ei dysgu ar y cyfan.
- Mae'r Sioe Frenhinol yn tynnu llawer o gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith i ardal di-Gymraeg  
Dylai pob plentyn trwy Brydain ddysgu rhywfaint o Gymraeg, er mwyn codi ymwybyddiaeth. Nifer yn teimlo na chawsant y cyfle i ddysgu'r Gymraeg pan oeddent yn blant
- Gall defnyddio'r Gymraeg mewn cynnyrch fod yn fater o gwrteisi os ydych yn gwneud busnes yng Nghymru.
- Gorddefnydd o symbol y Ddraig Goch wrth farchnata yng Nghymru – mae busnesau yn chwarae ar falchder cenedlaethol ond heb fod yn wahanol o gwbl.
- Nid oedd un o'r busnesau yn ystyried y Gymraeg wrth recriwtio.

## Cwestiwn 2

### Y prif rwystrau oedd yn atal busnesau rhag defnyddio'r Gymraeg oedd:

- Amser i ddysgu'r iaith
- Mwyafrif eu cwsmeriaid yn uniaith Saesneg
- Pob un yn cytuno mai'r gost yw'r prif rwystr. Popeth yn costu ddwywaith cymaint yn ddwyieithog - e.e. argraffu yn ddrud
- Os byddai papur newydd yn dweud wrth hysbysebwr bod rhaid iddynt hysbysebu yn ddwyieithog, byddai'r gost yn ormod a byddai neb yn hysbysebu gyda nhw.
- Dim gwybodaeth na llawer o ymwybyddiaeth gan y busnesau eu hunain am y Gymraeg
- Heb dderbyn arwyddion 'Dim ysmegu' yn Gymraeg gan y Cynulliad – wedi gweld busnesau eraill yn eu derbyn.
- 'Time is money' – dim amser i feddwl am wneud pethau yn ddwyieithog
- Ddim yn cymysgu gyda siaradwyr Cymraeg yn ddyddiol
- Diffyg cyrsiau Cymraeg ymarferol o gwmpas – maent yn dueddol o gymryd lefel o allu yn ganiataol.
- Arafwch asiantaethau (*menter iaith*) i ymateb i ofynion - heb glywed dim yn ôl neu yn gyndyn i helpu o gwbl
- Byddai'n ddefnyddiol i glywed yr achos busnes (business case) dros ddefnyddio'r Gymraeg, e.e. wrth farchnata.
- Mae yna 'renaissance' yn yr iaith Gymraeg a gallai fod buddiannau anferth i fusnesau i fod yn rhan o hynny

## Cwestiwn 3

### Beth allai Bwrdd yr iaith Gymraeg ac eraill wneud i oresgyn y rhwystrau:

- Ymateb! Aeth un mynychwr i gyfarfod gyda'r fenter iaith yn Y Fenni a gwnaeth e ddim argraff dda o gwbl arno - 'not the best presented guy'. Rhoddodd lot o daflenni ac ati iddo ond ddim wedi siarad drwy bethau yn iawn - ddim yn help ymarferol.
- Cost yw'r prif beth – ddim yn siŵr sut all asiantaethau helpu. Mae grantiau bach ar gael ond ....

- Byddai'n ddefnyddiol gwybod yn union ble i fynd i gael gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael – byddai'r busnesau yn gallu dweud wrth eu cleientiaid i fynd yno i gael cymorth.
- Codwyd y mater o Saeson yn mynd i ardaloedd Cymraeg a phobl leol yn troi i'r Gymraeg - hyn yn erydu'r cynnydd mewn ewyllys da i'r Gymraeg.

#### **Cwestiwn 4**

##### **Deunyddiau iaith Gwaith**

- Dim ymwybyddiaeth o'r deunydd ond am un person oedd yn adnabod y bathodyn 'Dwi'n dysgu Cymraeg'.
- Bobl yn cael eu cymysgu - beth yw ystyr y bathodyn? Y neges wedi ei lastwreiddio
- Byddai'r logo yn well petai geiriau arno er mwyn ei gysylltu â rhywbeth
- Lliwiau del.
- Byddai'n bendant ddim yn golygu dim i neb yn y swyddfa (*wedi ffonio'r diwrnod wedyn i gadarnhau hyn*)
- Mae'r warthus, ofnadwy - darn ofnadwy o farchnata. Edrych fel petai rywun wedi anghofio rhoi rhywbeth arno. Mae angen cael gair neu eiriau gyda'r marc yn gyntaf, ac yna pan mae pobl yn gyfarwydd ag ef, tynnu'r geiriau i ffwrdd (e.e. Nike)

#### **Cwestiwn 5**

##### **Anghenion hyfforddi**

- Neb yn gwybod dim am beth oedd ar gael yn yr ardal.
- Wedi trio ffeindio allan ond heb gael dim byd.
- Byddent yn mynd at Goleg Powys petaent am ddysgu Cymraeg
- Wedi gweld hysbysfyrdau yn hysbysebu cyrsiau Cymraeg
- Dim cefnogaeth ddigonol gan y Llywodraeth i hyfforddiant Cymraeg. Dim digon o arian yn cael ei wario arno.
- Ddim mor hawdd dysgu ieithoedd wrth fynd yn hŷn. Angen bod mewn amgylchedd braf, a ddim am deimlo'n dwp.
- Diddordeb pendant mewn cyrsiau ymwybyddiaeth iaith gan bob un
- Dylai bobl fod yn cael y cyfle i ddysgu Cymraeg wrth eu gwaith. Dim amser gan bobl gyda'r nos.
- Diddordeb mewn cyrsiau ar y We – byddai angen cymorth i wneud hynny, Byddai'n dangos ymrwymiad y busnes i'r Gymraeg.
- Byddai'n braf cael cyfarfod yn uniaith Gymraeg.
- Byddai'n syniad da cael llyfrau cyfieithu ymadroddion cyffredin i'r gweithle fel bod cyfle gyda staff i gyfarwyddo gyda geiriau ac ymadroddion cyffredin
- Byddai pob un yn croesawu meddalwedd cyfieithu ar y We.

#### **Arall**

- Un cwmni yn dweud eu bod yn awyddus i symud ymlaen gyda'r Gymraeg fel cwmni felly byddai unrhyw gymorth yn cael ei werthfawrogi
- Ychydig o ddefnydd ar hyn o bryd ond diddordeb mewn defnyddio mwy yn enwedig o ran marchnata..
- Croesawi gymhellant ariannol

- Angen gwybod ble i gael gwybodaeth – ar ran eu hunain ac ar ran cleientiaid
- Amser yn rhwstr o ran dysgu Cymraeg, ond diddordeb mewn ymwybyddiaeth iaith.

## **Grŵp Ffocws Aberteifi Castell Maelgwyn, Llechryd**

Cafodd y Grŵp Trafod ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Cwestiwn 1**

- Y cyfranwyr yn teimlo fod defnydd cryf o'r Gymraeg ymysg busnes yr ardal yn gyffredinol a bod yr ardal ei hunan yn Gymreigaidd iawn.
- Rhan fwyaf o fusnesau'r ardal gyda staff sy'n medru siarad Cymraeg.
- Dau o'r cwmnïau yn targedu'r farchnad Gymraeg gan gynnig gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg; ac felly mae'r Gymraeg yn rhan annatod o bopeth sy'n cael ei wneud o fewn y busnes.
- Y cyfranwyr yn gwneud pwynt o siarad Cymraeg gyda chwsmeriaid. Drwy wneud hyn mae teimlad o agosatrwydd, cyfforddus, cyfeillgarwch yn tyfu.
- Er ei bod nhw'n fusnesau Cymraeg roedd rhan fwyaf o'u cyflenwyr yn ddi-Gymraeg neu ddim yn gwneud llawer o ddefnydd o'r Gymraeg.
- Er bod hi'n hanfodol fod rhai staff newydd yn medru'r Gymraeg nid oed y busnesau yn ymwybodol o'r rheolau ynglŷn â hysbysebu yn uniongyrchol am siaradwyr Cymraeg.
- Busnesau yn penderfynu defnyddio'r Gymraeg am nifer o resymau yn cynnwys:
  - gwneud synnwyr masnachol/rhesymau economaidd
  - ffitio fewn efo'r ardal, cwsmeriaid yn siarad Cymraeg
- Rhai busnesau yn gwneud yr ymdrech am amser byr ee Wythnos siarad Cymraeg ond wedyn yn anghofio.

### **Cwestiwn 2 a 3**

Y criw oedd yn bresennol yn cytuno nad oedd llawer o rwystrau ond aethpwyd ymlaen i nodi'r canlynol:

- Cael siaradwyr Cymraeg i weithio ym maes arlwyo. Lwcus fod hi'n bosib cael myfyrwyr ar adegau prysur.
- Y cyflenwyr ddim yn siarad Cymraeg.
- Gwahanol acenion/tafodieithoedd - yn gallu creu problem cyfathrebu ymysg dysgwyr, ac fel arall.
- Rhifau, yn arbennig deuddeg a dau ddeg wedi achosi problemau gyda dysgwyr.
- Cymraeg safonol yn anodd dod ar ei draws – pa obaith pan mae esiamplau drwg o fewn y cyfryngau!
- Cyfieithu bwydlenni yn gallu bod yn broblem - cyfeiriwyd y busnes at y llinell gymorth gan ByIG - nid oeddynt yn ymwybodol ohono. Help i sicrhau fod yr iaith maen nhw'n defnyddio mewn cyfieithiadau yn gywir ac yn addas.
- Y cyfranwyr yn nodi pryder am ddelio gyda therminoleg busnes ayyb yn Gymraeg e.e. Food and Hygiene

### **Cwestiwn 4**

- Y gynulleidfa yn ymwybodol iawn o ddeunyddiau iaith, ond roedd y deunyddiau yma yn newydd iddynt.
- Aeth y busnesau a rhai o'r bathodynau a'r posteri gyda nhw.
- Brwdfrydedd cyffredinol tuag at fodolaeth y math yma o ddeunyddiau a'i bod yn gwneud gwahaniaeth.
- Mae cwsmeriaid, sy'n siarad Cymraeg, yn meddwl fod cael gwasanaeth trwy'r Gymraeg yn bwysig iawn.

### **Cwestiwn 5**

- Dim llawer o ddewis ynglŷn â chysiau hyfforddi, rhai ohonynt ddim ond i gael yn Saesneg. Hyd yn oed os oedd dewis rhai ohonynt ddim yn ddigon hyderus fod eu Cymraeg yn ddigon da i fedru gwneud y cwrs yn Gymraeg (terminoleg oedd y broblem fwyaf).
- Ni fyddent yn mynd allan o'i ffordd i chwilio am hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd rhai wedi gwneud cyrsiau Croeso Cymru yn y Gymraeg gyda dim problem. Roeddynt yn danfon staff arno hefyd.
- Codwyd y pwynt hwyrach bod pobl iau yn fwy hyderus i ymgymryd â hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg gan fod canran llawer uwch ohonynt wedi derbyn addysg yn yr ysgol trwy gyfrwng.

### **Arall**

- Roedd rhai o'r busnesau yn nabod ei gilydd.
- Ni chodwyd mater o ariannu ar unrhyw adeg heblaw ei bod yn teimlo'n flin fod grantiau ar gael i gychwyn busnes neu ehangu ond nad oedd unrhyw beth yn eu clymu at ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y busnes hwnnw.
- Roedd diddordeb mewn defnyddio meddalwedd Cymraeg ond nid oeddynt yn gwybod beth oedd a'r gael na lle i ddod o hyd iddo. Danfonwyd gwybodaeth iddynt y diwrnod canlynol.
- Mwy o barch i'r Gymraeg nag oedd yn arfer bod.

## **Grŵp Ffocws Aberystwyth / Aberaeron Gwesty'r Conrah**

Cafodd y drafodaeth ei chynnal trwy gyfrwng y Saesneg.

### **Cwestiwn 1**

- Y cyfranwyr yn teimlo fod defnydd eithaf da o'r Gymraeg ymysg eu busnesau yn gyffredinol (heblaw 1, Clwb Golff Aberdyfi).
- Rhan fwyaf o'r busnesau gyda staff sy'n siarad Cymraeg, byddent yn hoffi cael mwy o siaradwyr Cymraeg ond yn anodd dod o hyd iddynt.
- Canran sylweddol o gwsmeriaid yn siarad Cymraeg. Rhai busnesau yn denu siaradwyr Cymraeg gan ei bod yn cynnig gwasanaeth Gymraeg.
- Rhan fwyaf o'r busnesau yn defnyddio'r iaith ar lafar ac ar bosteri a bwydlenni.
- Un busnes dim ond yn recriwtio siaradwyr Cymraeg.
- Mae perchnogion busnes di-gymraeg yn ffeindio hi'n anodd cadarnhau fod staff yn medru siarad y Gymraeg wrth recriwtio.
- Y Clwb Golff ddim yn gweld budd mewn defnyddio'r iaith ar gyfer marchnata.
- Gweddill y busnesau yn gweld budd economaidd mawr mewn defnyddio'r Gymraeg er bod un perchennog ddim yn siarad Cymraeg.

### **Cwestiwn 2 a 3**

Y prif rwystr ydi medru recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg.

- Problem perswadio'r brif swyddfa fod budd mewn defnyddio'r Gymraeg - pob tro mae'n cychwyn mynd i rywle mae'r mater o gost yn codi.
- Bydde unrhyw help i feintoli'r budd yn ddefnyddiol iawn.
- Help i gyfieithu (darnau mwy nag sydd ar gael yn barod drwy'r llinell gymorth ee. llythyron).
- Cost cael arwyddion dwyieithog. Arian ar gael gan ByIG ond mae e wastad yn rhedeg allan.
- Os ydi busnes yn derbyn grant o unrhyw fath (Cynghorau Sir ayyb) yna dyle fod 'na gymal sy'n mynnu fod y busnes yn defnyddio arwyddion dwyieithog neu yn berchen ar bolisi dwyieithrwydd.
- Mae'r rhan fwyaf o wersi Cymraeg ar gyfer staff yn cymryd lle yn y dydd, angen eu cael gyda'r hwyr / ar ôl gwaith – angen bod mwy hyblyg.
- Cynnig gwersi Cymraeg am ddim i'r di-waith. Esiampl yn Sbaen – roedd y Llywodraeth yn talu am wersi iaith i'r di-waith. Dysgu 440 awr o Saesneg neu iaith arall - roeddynt wedyn yn gallu defnyddio'r sgil i chwilio am waith.
- Angen gwersi sy'n addas ar gyfer meysydd gwaith penodol ee arlwyyo, gwestai.
- Mae'r wybodaeth sydd ei angen ar gyfer y grantiau yn ormod yn enwedig os yw'r ateb yn negyddol gan nad oes 'na arian ar ôl.
- Llyfr 'Busnes Cymraeg / Welsh Business' defnyddiol iawn. Llyfr glas golau ar 'ring binder' (standardised terms book). (Sponsored by Midland?)
- Bydde help i fedru ysgrifennu hysbysebion ar gyfer swyddi i'w gwneud yn ddiddorol, yn enwedig yn Gymraeg yn ddefnyddiol.
- Mae diffyg adnoddau yn gyffredinol e.e. cyfieithu, arwyddion dwyieithog.

#### Cwestiwn 4

- Y cyfranwyr ddim yn gyfarwydd iawn gyda'r bathodynau a'r posteri (er ei bod wedi bod o gwmpas am ryw 2 flynedd). Mwy ymwybodol o'r rhai blaenorol.
- Dim ysgrifennu ar rai o'r bathodynau ayyb felly pobl ddim yn deall beth maent yn ei olygu. Mae'r un dysgu Cymraeg yn Ok.
- Ofn defnyddio poster 'Dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg' rhag ofn fod y person ar y cownter ddim yn siarad Cymraeg.
- Angen mwy o ddeunyddiau, rhai mwy solid hy metal neu blastig.
- Rhai o'r cyfranwyr yn falch fod angen dangos arwyddion dwyieithog ar gyfer dim ysmegu o'r 2il o Ebrill. Dylid fod mwy o achosion lle mae hi'n orfodol i ddangos arwyddion dwyieithog.
- Brwdfrydedd cyffredinol tuag at fodolaeth y math yma o ddeunyddiau a'i bod yn gwneud gwahaniaeth.

#### Cwestiwn 5

- Dim byd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg gan un o'r cwmnïau oedd yn bresennol ond mi fyddent yn fodlon talu am wersi Cymraeg i staff.
- Y cyfranwyr ddim yn ymwybodol o gyrsiau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd rhai yn gweld yr angen ar gyfer cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Nid oedd ganddynt lawer i ddweud ar y pwynt yma.

#### Arall

- Angen dod ar di-waith nôl i waith, byddai hyn yn help o ran recriwtio staff, Cymraeg a Saesneg, gorfod recriwtio pobl o Poland.
- Dyle fod enw Cymraeg ar bob tŷ yng Nghymru! Fel bod y Gymraeg i'w gweld ymhob man!
- Roedd rhan fwyaf o'r busnesau yn credu dylai fod y Cyngorau Sir yn medru gosod amodau ieithyddol ar unrhyw gais cynllunio, 'commercial, change of use' ayyb.
- Mae gwell agwedd i'r Gymraeg pan nad yw'r iaith yn cael ei stwffio ar bobl, ac eto roedd rhai yn credu dylai strategaeth y sector breifat fod yn mynnu fod rhai gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog ee banciau.
- 'Credit checks' yn broblem os yn defnyddio cyfeiriad Cymraeg yn lle, neu'n ogystal â Saesneg.
- Mae manteision i ddefnyddio ffurflenni neu rifau ffôn Cymreig. Gwell gwasanaeth.
- Roedd rhan fwyaf o'r cyfranwyr yn gweld fod medru'r Gymraeg yn ased neu sgil ychwanegol bwysig ar gyfer dewis staff. Byddent yn bendant yn recriwtio siaradwr Cymraeg yn hytrach na'r di-gymraeg os ydi popeth arall yn gyfartal.
- Cytunwyd hefyd y byddai'r rhan fwyaf yn talu premiwm (ond nid oeddynt yn fodlon rhoi pris arno) ar gyfer siaradwyr Cymraeg os oedd y sgiliau eraill o safon ganddynt hefyd.

## Grŵp Ffocws Caerfyrddin Gwesty'r Llwyn Iorwg

Fe gafodd y drafodaeth ei chynnal trwy gyfrwng y Saesneg.

### Cwestiwn 1

#### Defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y busnesau ac yn yr ardal yn ehangach

- Y Gymraeg yn cael ei defnyddio llawer gan yr hen a'r ifanc – y rhai rhwng yr oedrannau yma ddim yn ei defnyddio cymaint, yn enwedig ymysg staff yn y swyddfa. Cymraeg llafar sydd y cael ei defnyddio fwyaf, ddim cymaint Cymraeg ysgrifenedig. Yn gwneud defnydd o'r geiriadur ar-lein.
- Ceisio sicrhau bod staff Cymraeg ar gael ar gyfer digwyddiadau penodol (*gwesty*). Cymryd archebion yn Gymraeg. Llawer o ddefnydd yn y bar
- Cytuno bod cwsmeriaid yn yr ardal hon yn dueddol o ofyn am wasanaeth Cymraeg, felly mae angen siaradwyr Cymraeg.
- Defnydd ysgrifenedig – anfonebau, llythyrau ac ati – angen gwneud hyn ar gyfer rhai cwsmeriaid.
- Gofal cwsmer – well gan lawer o gwsmeriaid ddelio â'r busnes trwy gyfrwng y Gymraeg
  - Milfeddyg (y mynychwr yn ddi-Gymraeg)– mae 9 allan o 11 o staff cefnogol yn siarad Cymraeg ond dim ond dau o'r milfeddygon. Dim angen y termau technegol yn Gymraeg ond byddai gallu trafod yn gyffredinol gyda'r ffermwyr yn fanteisiol. Y sgiliau technegol sydd yn fwyaf pwysig fodd bynnag.
  - Cyfreithiwr - gwefan newydd ei lansio - mae'n ddwyieithog. Rhai mathau o ddogfennaeth yn Gymraeg ond yn gyfyngedig i ewyllysion ac ati.
  - Gwesty/tafarn sydd ar fin agor – mynd i fod yn gwbl ddwyieithog Cymraeg/Saesneg ac yn bwriadu ymgorffori o leiaf un iaith arall yn ogystal. Cyfrannu at ffyddlondeb y cwsmer i'r busnes
- Mewn achosion lle nad yw'r cwsmeriaid yn lleol - yn ddi-Gymraeg, ddim cymaint o bwyslais ar y Gymraeg – ddim yn gweld yr angen.
- Byddai'r mwyafrif yn dod 'nôl i'r busnes beth bynnag am y Gymraeg - bonws ychwanegol yw'r Gymraeg, yn gwneud i bobl deimlo yn fwy cyfforddus. 'It's the icing on the cake'. Y busnes yn cael ei feirniadu ar sut mae'n perfformio ac mae'r Gymraeg yn eu gwneud yn fwy ffyddlon i'r busnes.
- Mae pob un sydd yn siarad Cymraeg hefyd yn siarad Saesneg ond mae rhai yn fwy cyfforddus yn y Gymraeg. Rhaid bod yn siŵr eu bod wedi eich deall yn iawn, yn enwedig o ran termau technegol yn Saesneg (milfeddyg).
- Y Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith breifat - rhwng teulu a ffrindiau - cynhelir cyfarfodydd fel arfer yn Saesneg, ond am y Clwb Cinio. Mewn sefyllfa ffurfiol, hyd yn oed petai bawb yn gallu siarad Cymraeg, byddai'r sgwrs yn gallu troi i'r Saesneg.
- Rhai busnesau ffermio ifanc – mae'n amlwg bod rhyddhad os ydych yn gallu siarad Cymraeg a nhw – yn ofni siarad Saesneg.

- Gallai fod yn beth cenhedlaeth - rhai pobl fydddech chi ddim ond yn siarad Saesneg â nhw a rhai yn Gymraeg - anodd newid iaith unwaith i chi gyfarwyddo.
- Angen asesu'r cleient o ran pa iaith maen nhw am siarad, Rhai pobl yn dechrau yn Gymraeg ond wedyn am newid i'r Saesneg ar gyfer y darn ffurfiol.
- Cynnig dewis iaith, megis ateb y ffôn yn Gymraeg.
- Cyfreithiwr – yn wael am farchnata'u gwasanaethau beth bynnag. Mae papur pennawd ac arwyddion yn ddwyieithog fel arfer (*cynrychiolwyr o ddau gwmni cyfreithwyr yn bresennol*)
- Marchnata llwyddiannus yn ei wneud yn hawdd i'r defnyddiwr. Nid dim ond yr iaith ond o safbwynt busnesau twristiaeth, mae am y diwylliant hefyd. Edrych ar y Gymraeg fel iaith Ewropeaidd. Dim angen y cyfan yn ddwyieithog i'r diben hwn am fod y mwyafrif o gwsmeriaid yn dod o wledydd eraill.
- Lefel o ddiddordeb mewn cael gwybodaeth bellach am wefannau dwyieithog.
- Oes ydych yn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg rhaid i bobol wybod eich bod yn cynnig hyn, a byddwch yn denu pobl oherwydd hynny.

## Cwestiwn 2

### Y prif rwystrau oedd yn atal busnesau rhag defnyddio'r Gymraeg oedd:

- Cost, er bod Bwrdd yr Iaith (*y Fenter Iaith oedd ganddo mewn golwg fan hyn a rhannwyd gwybodaeth o amgylch y bwrdd amdanynt gan un o'r mynychwyr*) yn gymorth mawr gyda'r cyfieithu. Ddim yn werth y gost pan fo'r mwyafrif o'ch cwsmeriaid yn dwristiaid.
- Materion staffio - os ydych yn addo gwasanaeth Cymraeg (e.e. arwyddion) rhaid dilyn i fyny arno. Os nad yw cwsmer yn gwybod fod aelod o staff yn siarad Cymraeg, mae'n gallu risgio embaras os bydd yn siarad Cymraeg, felly yn tueddi siarad Saesneg i osgoi hyn
- Bobl yn mynd yn paranoid os nad ydynt yn deall yr iaith - yn meddwl fod pobl yn siarad amdanynt nhw. Cafwyd stori am gan un perchennog gwesty/tafarn am grŵp o bobl fyddar yn siarad â'i gilydd yn iaith arwyddion - bobl eraill yn ddrwgdybus eu bod yn siarad amdanynt nhw. Os nad ydych yn gwybod beth mae pobl yn dweud mae'n eich gwneud i deimlo'n ansicr.
- Erbyn hyn gallwch gerdded o gwmpas Caerfyrddin a chlywed ieithoedd eraill (Pwyleg) – mynd i gymryd amser i gyfarwyddo â hyn
- Diffyg hyder wrth ysgrifennu a defnyddio'r Gymraeg i lythyru - bobl yn poeni am y gramadeg. Mae dogfennaeth Cymraeg yn gallu creu problem yn y swyddfa os oes rhywun arall di-Gymraeg yn cymryd dros y ffeil pan fydd y siaradwr Cymraeg i ffwrdd.
- Costau cyfieithu yn broblem fawr pan fod cymaint o ddogfennaeth (cyfreithwyr). Hefyd mae dogfennau cyfreithiol yn gofyn am sicrwydd ystyr cyfreithiol, ac mae cyfieithu yn gallu newid ystyr. Rhaid defnyddio cyfieithydd arbenigol. Gwnaed yr un pwynt gan y milfeddyg am yr ochr dechnegol o'r gwaith.
- Hoffent gael mwy o feddalwedd iaith yn y busnes – pethau fel llythyrau safonol – dylent fod ar gael yn Gymraeg hefyd.

- Gallai fod yn broblem o ran dilyniant – bobl yn gorfod troi i ddefnyddio'r Saesneg os oes angen mynd at filfeddyg arall i drafod problem arbennig.
- Diffyg milfeddygon sydd yn siarad Cymraeg yn broblem
- Defnyddio'r Gymraeg yn gallu bod yn fwy o hasl – e.e. newid enw'r busnes i'r Gymraeg neu ddwyieithog yn gallu creu mwy o waith wrth i gleientiaid ffonio i gael eglurhad.
- Diffyg staff dwyieithog yn thema gyffredin
- Byddai'r mwyafrif ddim yn cyflogi pobl dim ond am eu bod yn siarad Cymraeg - ond fel sgil ychwanegol petai bob peth arall yn gyfartal. Mae yna sgiliau eraill sydd yn gallu cael mwy o flaenoriaeth, e.e. sgiliau technegol.
- Un busnes yn bwriadu hysbysebu yn Gymraeg am ysgrifenyddes newydd.
- Milfeddyg – mae'r Gymraeg yn fantais bendant wrth recriwtio ond gyda milfeddygon mae'r sgiliau technegol yn fwy pwysig. Un pwynt arall – os ydy milfeddyg yn siarad Cymraeg, mae'n fwy tebygol o fod yn lleol ac felly yn fwy tebygol o aros gyda'r busnes.

### **Cwestiwn 3**

#### **Beth allai Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill wneud i oresgyn y rhwystrau:**

- Byddai gwasanaeth cyfieithu ehangach yn gymorth
- Esiamplau o sut i farchnata'r busnes trwy ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mwy nag un busnes wedi defnyddio'r Fenter Iaith leol ac yn dweud eu bod yn wych.
- Termau ac amodau safonol yn Gymraeg
- Cymorth ymarferol gyda gwefannau, papur pennawd, slipiau cyfarch ac ati.
- Cymorth ariannol yn dda hefyd wrth gwrs.
- Cyfieithwyr gyda sgiliau technegol e.e. cyfreithiol, milfeddygol, meddygol ac ati. Un arall o'r farn ei fod yn well cadw'r Gymraeg i ffwrdd oddi wrth ochr dechnegol y busnes.
- Diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael – wedi darganfod y gwasanaeth cyfieithu rhad ac am ddim trwy ddamwain – ddim yn wybodaeth gyffredinol,

### **Cwestiwn 4**

#### **Deunyddiau Iaith Gwaith**

- Pob un o gwmpas y bwrdd yn adnabod y deunyddiau ac yn gwybod beth oedd eu hystyr.
- Fodd bynnag, cwsmeriaid a chleientiaid yn gofyn o hyd beth yw'r arwyddion.
- Os nad ydy bobl yn gyffredinol yn gwybod beth maen nhw'n meddwl, maen nhw'n aneffeithiol - d'yw bobl ddim yn cael y neges
- Mae'r bathodyn 'dysgu Cymraeg' yn well am fod geiriau arno. Roedd geiriau ar yr hen fathodyn.
- Os nad ydy bobl yn gwybod beth ydyw – mae'n gallu edrych fel cymdeithas gudd 'secret society' – ddim yn argraff chi eisiau rhoi.

- Cafwyd cymhariaeth eto gyda'r logo Nike (fel Aberhonddu). Byddai ddim wedi llwyddo petai heb gael y gair Nike wrth ei ochr am amser hir.
- Dylid hyrwyddo'r deunyddiau yn yr ysgolion fel bod plant yn dod yn gyfarwydd â'r marc ac ati.
- Gallu bod yn broblem os nad ydy pawb yn y cwmni yn siarad Cymraeg gan fod yr arwyddion yn codi disgwiliadau'r cwsmer - hyn yn wrthgynhyrchiol wedyn.
- Bathodyn sydd yn fwyaf defnyddiol gan ei fod yn pwyntio at allu'r person hwnnw i siarad Cymraeg.

## **Cwestiwn 5**

### **Anghenion hyfforddi**

- Ddim llawer o bobol wedi dod ar draws cyrsiau Cymraeg
- Un person yn ymwybodol o hyfforddwyr Cymraeg a dosbarthiadau sgwrsio Cymraeg.
- Byddai dosbarth sgwrsio Cymraeg dros amser cinio yn ddelfrydol – byddent yn fodlon talu am hyn.
- Byddai cyflwyniad i'r iaith Gymraeg yn dda - i'w gwneud yn ymwybodol o'i phresenoldeb – byddai dysgu'r iaith yn gam nesaf naturiol wedyn.

## **Grŵp Ffocws Caerdydd Canolfan y Mileniwm, Caerdydd**

Cynhaliwyd y drafodaeth yn Saesneg

### **Cwestiwn 1**

#### **Defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y busnesau ac yn yr ardal yn ehangach**

- Atebion gan fusnesau unigol:
  - Meithrinfa - ddim yn defnyddio llawer o Gymraeg oherwydd diffyg staff sydd yn gallu siarad Cymraeg. Maent yn gwneud peth e.e. geiriau bach allweddol yn Gymraeg. Nid oes marchnad anferth ar gyfer y Gymraeg ond mae rhai pobl yn gwrthod y feithrinfa am nad oes staff sy'n siarad Cymraeg, er y byddent yn ei dewis fel arall.
  - Cwmni dylunio - mae'r defnydd yn amrywio llawer yn dibynnu ar y gwaith dan sylw. Maent yn ymwybodol o'r twf yn y defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd e.e. caffis, ond ddim cymaint yn y Bae lle maent wedi eu lleoli. Methu meddwl am neb sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn eu stryd nhw na'u hadeilad nhw. Mae rhai o'u cleientiaid, yn enwedig o fewn y cyfryngau, yn gofyn am ddylunio dwyieithog, felly mae angen iddynt gael eu gweld fel cwmni dylunio dwyieithog. Mae eu gwefan yn ddwyieithog ac mae un aelod staff yn deilio gyda'r gwaith dwyieithog.
  - Cwmni ymchwil - maent yn awyddus i hyrwyddo eu hunain fel cwmni dwyieithog. Nid oes gan lawer o'u cystadleuwyr y fantais honno felly maent yn defnyddio'r dwyieithrwydd i farchnata eu hunain yn wahanol i'r lleill. Gwneir y rhan fwyaf o'u gwaith yng Nghymru a pheth y tu allan. Cynnig dewis iaith i'r cleientiaid o'r cychwyn yw eu polisi, ac maent hefyd yn gwasanaethu siaradwyr Cymraeg yn benodol. Mae tua hanner eu staff yn gallu siarad Cymraeg.
  - Busnes clwb a cherddoriaeth byw. Cyfran helaeth o'u busnes gyda siaradwyr Cymraeg ac yn meddu ar y farchnad graidd ar gyfer y math yma o wasanaeth yn y cylch. Busnes Cymraeg yn dod i mewn yn hawdd iddynt
- Neb oedd yn mynychu'r grŵp yn cynnwys dim am yr iaith Gymraeg yn eu polisïau swyddogol. Fodd bynnag, roeddynt oll yn teimlo fod gallu cynnig elfennau Cymraeg yn gwella'r agwedd gofal cwsmer.
- Dim llawer o ddefnydd o'r Gymraeg wrth farchnata ond am un cwmni) ond am eu gwefannau dwyieithog
- Bobl yn y cyfryngau a'r sector cyhoeddus yn tueddi i ddefnyddio'r Gymraeg mwy na'r sector preifat.

### **Cwestiwn 2**

#### **Y prif rwystrau oedd yn atal busnesau rhag defnyddio'r Gymraeg oedd:**

- Cyfyngiadau ariannol – deunyddiau marchnata angen eu cyfieithu, hefyd costau postio ychwanegol. Cleientiaid ddim yn hapus i gario'r gost ychwanegol
- Cyfyngiadau amser – bod yn ddwyieithog yn gallu bod yn fwy o waith.

- Peth consyrn ynglŷn â sut bydd cleientiaid di-Gymraeg yn ymateb i ddefnydd o'r Gymraeg yn y busnes
- Staff – busnesau ddim yn gweld y byddent byth mewn sefyllfa lle byddai pob aelod staff yn gallu siarad Cymraeg.
- Amser i gyfieithu – gorfod cymryd hwn i ystyriaeth wrth wneud amserlen ar gyfer darn o waith, ac weithiau mae'r cleient am gael y canlyniadau mor fuan â phosib.
- Bob amser yn edrych i recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg ar gyfer swyddi allweddol neu arbenigol
- I un o'r busnesau y ffactor oedd yn eu rhwystro oedd nad oedd un o'r staff yn gallu siarad Cymraeg.
- Diffyg siaradwyr Cymraeg wedi eu hyfforddi mewn meysydd allweddol
- Ofn gwrthwynebiad gan rieni di-gymraeg (y feithrinfa) - a fyddai hyn yn werth mwy i'r busnes na busnes newydd Cymraeg?
- Diffyg cyhoeddiadau marchnata yn Gymraeg (e.e. Yellow Pages)
- Pobl fydd y busnes yn gorfod delio a nhw yn ddi-Gymraeg e.e. cyflenwyr, swyddogion cyngor ac ati
- Pan fydd busnes yn gorfod gwneud ymholiadau gan y sector cyhoeddus, yn aml nid yw'r gwasanaeth dwyieithog fel yr hysbysebwyd. Hefyd os yw'r ymholiad o natur arbenigol, rhaid troi i'r Saesneg.
- Cynulleidfa Cymraeg ond maen nhw am glywed cerddoriaeth Saesneg yn aml

Y prif rwystr yw cost yn ôl y busnesau oedd yn bresennol.

### **Cwestiwn 3**

#### **Beth allai Bwrdd yr iaith Gymraeg ac eraill wneud i oresgyn y rhwystrau:**

- Grant ar gyfer gwefan ddwyieithog – dylid defnyddio cyfieithwyr proffesiynol ar gyfer hyn
- Grant marchnata
- Gwersi Cymraeg am ddim, wedi eu teilwra yn arbennig ar gyfer y busnes
- Cynnig adnoddau am ddim neu am ddisgownt i fusnesau.
- Angen mwy o ddeunyddiau dwyieithog e.e. arwyddion 'Dim Ysmygu' dwyieithog. Mae'n debyg eu bod yn anodd cael gafael ar rhai dwyieithog.
- Arwyddion dwyieithog o unrhyw fath yn anodd cael gafael arnynt

### **Cwestiwn 4**

#### **Deunyddiau Iaith Gwaith**

- Y mwyafrif yn bresennol yn ymwybodol o'r deunyddiau ond rhai yn ansicr ynglŷn â'u hunion ystyr
- Rhan fwyaf yn credu y byddai'r bathodyn yn well petai geiriau arno, yn debyg i'r bathodyn i ddysgwyr.
- Rhai yn cofio'r hen fathodyn gyda lliwiau gwahanol, ac yn credu na ddylid fod wedi ei newid am ei fod yn frand oedd wedi ei sefydlu.
- Anodd hyrwyddo am nad yw bobl yn siŵr beth yw ei ystyr. Efallai y dylid gwneud y bathodyn y fwy proffesiynol yn ei ddelwedd.

- Y busnesau yn credu ei fod yn bwysig bod y Gymraeg yn weledol o fewn busnesau ond nid yn angenrheidiol ar gyfer gwneud elw na gofal cwsmer, dim ond efallai mewn busnesau manwerthu – enghraifft a ddefnyddiwyd oedd ASDA.

### **Cwestiwn 5**

#### **Anghenion hyfforddi**

- Yr oedd diddordeb pendant mewn cwrs ymwybyddiaeth iaith
- Awgrymwyd cynnal cyrsiau dysgu Cymraeg amser cinio i fusnesau i'w wneud yn haws i ffitio nhw i'w dyddiaduron.
- Angen am hyfforddiant Cymraeg o ryw fath yn bresennol ym mhob un o'r cwmnïau, i wahanol raddau

#### **Arall**

- Staff o fewn y cwmnïau wedi mynychu dosbarthiadau Cymraeg o'r blaen ond wedi gweld nad oedd y ddarpariaeth yn addas ar gyfer anghenion penodol y person.
- Rhai wedi gwneud ymholiadau ynglŷn â hyfforddi ac arwyddion ond heb gael dilyniant i'r ymholiad

## Grŵp Ffocws Dinbych (Clwb Golff Dinbych)

Cynhaliwyd y drafodaeth yn ddwyieithog

### Cwestiwn 1

- Rhai o'r busnesau oedd yn bresennol yn gwneud defnydd o'r iaith Gymraeg, ac yn gweld gwerth o wneud hyn yn yr ystyr ei bod yn medru uniaethu hefo'r cwsmeriaid a'i bod yn edrych yn well ei bod nhw yn gwneud yr ymdrech yma gan fod nifer o'u cwsmeriaid yn siarad Cymraeg
- Un neu ddau ohonynt yn gweithio mewn meysydd arbenigol a gan fod y termau i gyd yn dechnegol doeddent ddim yn gweld perthnasedd i'r iaith o fewn ei busnesau
- Yn gyffredinol defnydd cymysg oedd yn cael ei wneud yn yr ardal, rhai busnesau Saesneg ar lafar yn gwneud digon o ddefnydd ysgrifenedig o'r iaith ac yn ymdrechu i gyfieithu popeth hefyd. Ar y llaw arall roedd busnesau nad oedd yn gwneud unrhyw ddefnydd o'r iaith am y rheswm syml nad oeddent yn medru ac am nad oeddent yn gweld gwerth yn hynny.
- Un person busnes yn nodi nad oedd yn gwneud cymaint o ddefnydd o'r iaith Gymraeg ac yn y gorffennol gan nad oedd y Cymry o'r pentrefi gwledig yn dod yno i siopa i Ddinbych dim mwyach, ond yn siopa un ai yn eu pentrefi neu yn yr archfarchnadoedd
- Rhai busnesau yn cydnabod y dylent wneud mwy o ddefnydd o'r iaith ond nad oeddent yn gwybod lle i droi am y cymorth hwn pob tro
- Teimlad un busnes oedd nad oeddent am ddefnyddio deunyddiau Bwrdd yr Iaith yn lle ei bod nhw yn camarwain eu cwsmeriaid felly yn well peidio ag achosi unrhyw gymhlethdod
- Busnesau yn gwneud defnydd o'r iaith Gymraeg am ddau reswm yn bennaf -gan fod nifer o'u cwsmeriaid yn siarad yr iaith ac am ei fod yn gwneud synnwyr economaidd hefyd, pobl yn fwy parod i ddefnyddio ei busnes o weld ei bod nhw yn ymdrechu hefo'r iaith
- Teimlad cyffredinol nad oedd yr ardal wledig o gwmpas Dinbych mor Gymreigaidd ag arferai fod, a bod llai o ddefnydd o'r Gymraeg gan fusnesau'r dref nac a fu.
- Un busnes (siaradwr Cymraeg) yn nodi nad oeddynt yn cynhyrchu deunyddiau dwyieithog ond yn taro fo yn ystod ein trafodaeth pe bai nhw'n gwneud byddai nhw yn medru cynnig rhywbeth gwahanol i'w cystadleuwyr.
- Un busnes yn nodi nad oeddynt wedi meddwl am y peth yn fwriadol ond fod cwsmeriaid yn "weledol falch" pan oedd modd iddyn nhw drafod yn Gymraeg.

### Cwestiwn 2

- Rhwystrau rhag defnyddio'r iaith yn cynnwys cost -yn aml yn costio dwbl i gyfieithu a busnesau yn methu fforddio hynny pob tro chwaith
- Gweithio mewn maes arbenigol lle nad oeddent yn teimlo fod angen gwneud defnydd o'r iaith a hynny yn gwneud iddynt atal ei defnyddio

- Ddim yn medru siarad yr iaith felly ddim eisiau camarwain cwsmeriaid trwy wneud popeth yn ddwyieithog
- Cymryd amser nad oes gan y busnesau yn aml i gael deunyddiau dwyieithog yn ôl. Er enghraifft pan ar fin cychwyn busnes fedran nhw ddim fforddio aros i gael grant marchnata felly maen nhw yn rhoddi arwyddion uniaith Saesneg i fyny
- Un yn dweud mai busnes twristiaid oedd ganddo, felly dim pwynt cael pethau'n ddwyieithog (eto'n cydnabod fod canran uchel o'i gwsmeriaid o Gymru!)
- "Does 'na neb wedi annog ni i wneud, na holi ni i wneud. Dwi'n siŵr y gwnaem ni, ac eraill gyda chefnogaeth ac anogaeth.
- Dim staff o fewn y cwmni sy'n medru siarad na sgwennu Cymraeg. Angen help i gyfieithu.

### Cwestiwn 3

- Busnesau yn rhoddi canmoliaeth fawr i Fenter Iaith yn yr ardal, maen nhw wedi bod yn hynod o ddefnyddiol yn ein cynorthwyo i gyfieithu pethau a gobeithio y bydd y gwasanaeth hwn yn parhau hefyd gan ei fod yn gyfleuster arbennig!
- Mae'r grantiau mae'r Bwrdd yn ei gweithredu i gael arwyddion dwyieithog eto yn arbennig ond mae angen i'r system a'r broses hon gael ei chlymu i fyny yn ofnadwy mae yn wythnosau lawer ar fusnesau yn derbyn y grant yn aml iawn ac ni all busnesau fforddio'r amser yma
- Angen teilwra'r system o grantiau i weddu busnesau yn well, yn lle fod pawb yn cael trio am £1000 buasai yn well pe bai nhw yn gwneud y ffigwr hwn yn fwy i rai busnesau ac yn llai i rai eraill- hyn yn gwneud mwy o synnwyr na'r system bresennol
- Hefyd yn lle'r system bresennol o wneud un cais y flwyddyn medru gwneud mwy nac un cais os nad ydi busnes wedi defnyddio'r uchafswm o £1000 o bunnoedd o fewn y flwyddyn
- Help ariannol i gynhyrchu deunyddiau marchnata ar gyfnodau allweddol megis wrth sefydlu neu ehangu busnes. Mae llawer o gostau adeg honno a byddai cymorth uniongyrchol sydyn yn help mawr
- Mae angen rhywun i genhadu ac argyhoeddi o'r gwerth masnachol. Byddai bobl yn debycach o wneud rhywbeth wedyn.
- Byddai gohebiaeth syml achlysurol yn help i fusnesau wybod pa help sydd ar gael gan ByIG
- Mae diwyg y dref yn gyffredinol wedi dioddef yn ddiweddar, nifer o adeiladau wedi bod yn segur ers amser. Oes modd meddwl yn nhermau ymgyrch i gael 'concentrated effort' mewn trefi marchnad allweddol? 'Pinpointio resources' i rai llefydd er mwyn dangos be sy'n bosib. Byddai trefi eraill yn medru efelychu.
- Mae delwedd tref fatha Dinbych o safbwynt siaradwyr Cymraeg yn issue. Di'r lle ddim yn notod am ei Gymreictod. Lincio nôl i'r pwynt am bobl y wlad yn mynd i lefydd pellach i siopa.
- Help gyda chyfieithu arwyddion bach (gwybodaeth i dwristiaid) yn yr amgueddfa yn help medd un busnes. Ymwelwyr yn licio gweld yr iaith Gymraeg.

#### Cwestiwn 4

- Y gynulleidfa ar y cyfan wedi ei rhannu yn ddwy o ran ei ymwybyddiaeth o ddeunyddiau marchnata Bwrdd yr iaith Gymraeg. Un neu ddau o siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol ohonynt ac yn eu hoffi yn fawr. Y mwyafrif di-Gymraeg erioed wedi gweld nhw ac yn hollol niwlog a heb unrhyw syniad beth oedd ystyr yr arwyddion sydd yn datgan eich bod yn ddwyieithog
- Angen defnydd marchnata sydd yn nodi yn union beth mae yn ei feddwl, pe bai Sais er enghraifft yn cerdded i mewn i'w busnes ni fuasai ganddo unrhyw syniad beth fuasai ystyr yr arwyddion oren mawr yn ôl mwy nac un person yno!
- Ar y cyfan ymwybyddiaeth o ddeunyddiau marchnata ddim yn gryf iawn, ac yn achosi cryn benbleth pan oeddwn yn gofyn beth oedd ystyr y bathodynau!
- Er y diffyg ymwybyddiaeth roedd y bathodynau yn boblogaidd iawn ac fe fachwyd tomen ohonynt!

#### Cwestiwn 5

- Pawb yn gytûn ar un peth - fod digon o ddarpariaeth i ddysgu'r iaith o fewn yr ardal ac mae Llysfasi yn arwain ar hyn, eto cost oedd y peth mwyaf - buasai cymorth ariannol i ddysgu'r iaith pob tro yn dderbyniol!
- Canmoliaeth arbennig gan fwy nac un i'r pecyn 'over the counter' ddefnyddiwyd gyda siopwyr y dref cyn i'r Eisteddfod Genedlaethol ddod i Ddinbych. Pecyn a chasét yn rhoi brawddegau syml Cymraeg "defnyddiol" i'r siopwyr fedru cyfathrebu gyda'r eisteddfodwyr.
- Y steddod wedi creu bwrlwm a diddordeb yn yr iaith ond falle fod angen rhyw fath o ddilyniant gyda busnesau? Colli cyfle i adeiladu ar y momentwm.
- Teimlad hefyd fod lle i gyflwyno cam pellach yn dilyn 'over the counter' – gwneud pethau mewn camau 'manageable' fel hyn.
- "Byddai hyfforddiant Cymraeg ar gyfer pobl sy'n gweinyddu grwpiau busnes fel Denbigh Town Business Group yn medru cael dylanwad positif. Personau busnes sy'n gweinyddu'r grŵp ond maen nhw'n ddi-Gymraeg a does dim modd cyfieithu'r wefan e.e." " Byddai gwybod beth sydd ar gael i'r busnesau o safbwynt dwyieithrwydd yn ddefnyddiol i'r personau hyn hefyd, hyd yn oed os nad ydynt yn medru'r Gymraeg eu hunain"
- Teimlad cyffredinol fod parodrwydd i wneud mwy –yn enwedig ymysg y di-Gymraeg, pe bai rhywfaint o anogaeth.

#### Cyffredinol

Y grŵp yma at ei gilydd (yn enwedig pobl gynhenid di-gymraeg) yn fwy negyddol ynglŷn â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu busnesau. Ddim yn gweld y pwynt nac yn dangos fawr o ddiddordeb. Efallai fod hyn yn ddealladwy gan fod mynychwyr y grwpiau eraill wedi ymateb i wahoddiad uniongyrchol i ddod i grŵp ffocws yn ymwneud â'r iaith Gymraeg (ac felly yn dangos rhyw fath o ddiddordeb ymlaen llaw) tra mai ni oedd yn mynychu digwyddiad grŵp busnes oedd yn digwydd beth bynnag yn yr achos yma. Serch hynny mae'r gymhariaeth yn un ddiddorol ac yn rhoi darlun mwy realistig o'r agweddau sy'n bodoli o bosib.

Diffyg ymwybyddiaeth am rôl ByIG yn fwy amlwg na'r grwpiau eraill.

Parodrwydd (dan y wyneb) i wneud tipyn mwy o ddefnydd o'r iaith gyda rhywfaint o anogaeth a chefnogaeth.

Grwpiau o'r natur yma yn dueddol o fod yn fwy Seisnig yn gyffredinol, a ddim y lle mwyaf amlwg i dargedu adnoddau o bosib. Eto i gyd mae rhywun yn gweld fod angen cenhadu'r basics.

## Grŵp Ffocws Llandudno Venue Cymru, Llandudno

Cynhaliwyd y drafodaeth yn Saesneg

### Cwestiwn 1

#### Defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y busnesau ac yn yr ardal yn ehangach

- Y mwyafrif o fusnesau'r ardal i'w gweld yn gwneud defnydd o'r iaith Gymraeg i raddau, mae faint yn union yn amrywio yn helaeth o fusnes i fusnes ond y mwyafrif yn gwneud peth defnydd beth bynnag
- Os nad oedd busnesau yn defnyddio'r Gymraeg y prif reswm am hyn oedd y gost o gyfieithu ar y busnes pob tro a bod hynny yn ffactor amlwg pam nad oedd pob busnes yn gwneud y defnydd mwyaf helaeth o'r iaith
- Roedd rhai cwmnïau yn ei gweld yn niwsans ei bod yn gorfod aros cyn hired am y cyfieithiad o dro i'w gilydd ac roedd hyn yn ffactor arall trwy beidio â gwneud y defnydd helaethaf o'r iaith yn ei busnes
- Cytunwyd fod busnesau newydd yn fwyfwy tebygol o fynd ati i ddefnyddio arwyddion dwyieithog a bod hyn oherwydd nifer o ffactorau yn cynnwys ei fod yn gwneud synnwyr masnachol ac yn apelio at gynulleidfa ehangach o gwsmeriaid ar y cyfan
- Un pwynt penodol gan y Theatr - ddim yn gyfreithlon i gyfieithu gwybodaeth swyddogol am gynrychiadau - hyn yn eu rhwystro rhag cynhyrchu deunydd marchnata gwbl ddwyieithog
- Dwedwyd fod hyn yn 'good for budget' – yn awgrymu agwedd braidd yn negyddol efallai
- Diddorol nodi gwyliau fferm - 12 gwraig fferm siaradwyr Gymraeg - ond yn cynhyrchu taflenni a gwefan uniaith Saesneg - meddwl byddai'r gost yn dyblu. Byddai gwefan bas data yn gallu dod dros y broblem yma.
- Os nad yn ddwyieithog eu hunain cwmnïau ofn na fyddai nhw'n medru diweddarau pethau fel gwefannau
- Theatr wedi anfon deunydd marchnata uniaith Saesneg i ysgolion Môn ac wedi cael adborth negyddol – dysgu gwers.
- English customers would take the mickey if we answered the phone bilingually – rhai'n meddwl
- Teimlad cryf fod y Gymraeg yn dod yn llawer mwy gweledol - a phawb i weld yn croesawi hyn.
- Rhai o'r busnesau oedd yn bresennol yn defnyddio llai ar yr iaith gan fod y nifer helaethaf o'u cwsmeriaid dros y ffin a ddim yn gweld yr angen
- Ffactor bositif dros ddefnyddio'r iaith wrth fynd am beth gwaith oedd bod rhai o'r cystadleuwyr ddim yn cynnig gwasanaeth dwyieithog felly yn fantais economaidd amlwg
- Un cwmni yn cydnabod ei bod yn colli busnes oherwydd anallu rhai o'i staff i siarad yr iaith "Once we get furthestmost we loose business because our reps cannot communicate in Welsh" (Design 2 Print)
- Pawb yn cydnabod fod siarad a marchnata'r iaith o fewn ei busnesau yn gwneud synnwyr economaidd a bod manteision amlwg dros wneud hyn

- O ran marchnata'r busnes yn ddwyieithog er yn fantais os ydynt yn cyfieithu yn anghywir pobl yn rhy barod i roddi barn negyddol felly ddim bob tro yn werth gwneud hynny
- Hefyd teimlad os oedd y cwmni yn marchnata yn ddwyieithog ond ddim mewn gwirionedd yn medru cynnig gwasanaeth Cymraeg ei bod yn camarwain eu cwsmeriaid a bod hyn yn ddrwg i fusnes yn y pendraw
- Cyfieithiadau o un ardal i'r llall yn ei gwneud yn anodd i gael 'consistency' fel petai yn y cyfieithiad

## **Cwestiwn 2**

### **Y prif rwystrau oedd yn atal busnesau rhag defnyddio'r Gymraeg oedd:**

- Medru siarad yr iaith ond ddim ei ysgrifennu yn raenus felly hynny yn cyfrif yn erbyn y busnes
- Cost yn ffactor enfawr, costio dwywaith i wneud pethau yn ddwyieithog yn aml felly ddim yn gwneud synnwyr i'r busnes fynd ati i dalu'r holl gostau ychwanegol trwy'r amser
- Dim siaradwyr Cymraeg o fewn y busnes felly ddim eisiau camarwain darpar gwsmeriaid
- Methu delio gydag elfennau technegol y busnes
- Anodd cyfieithu sloganau, arwyddion, ayb (yn wahanol i gyfieithu strêth) oblygiadau dylunio hefyd i gwmnïau argraffu ac ati
- Cyfieithwyr ddim pob tro ar gael ac yn aml yn cymryd gormod o amser i gael y cyfieithiad yn ei ôl, busnes yn colli cwsmeriaid ac yn methu fforddio colli'r amser hwnnw chwaith
- Mae Cymry yn aml yn 'sceptical' os nad ydi'r Gymraeg yn raenus a ddim eisiau delio hefo pobl fel hyn gan nad yw yn gwneud unrhyw les i hunan hyder yr unigolyn
- Tydi'r maes mae rhai busnesau yn gweithio ynddo ddim yn gofyn am ddefnydd o'r iaith o ddydd i ddydd felly ddim yn gwneud yr ymdrech i fynd ati i wneud popeth yn ddwyieithog
- Yr elfen amser yn dod i mewn iddi yn aml, cymryd gormod i gael pethau nôl yn amlach na phaidio
- "If you are wrong with your translation more often than not you really do hear about these things!"
- Pawb yn ei gweld yn ddefnyddiol fod gwasanaeth gan Fwrdd yr Iaith i gyfieithu hyd at 70 gair am ddim ac yn debygol o wneud defnydd o'r gwasanaeth. Neb yn gwybod am fodolaeth y gwasanaeth cyn y noson.

## **Cwestiwn 3**

### **Beth allai BylG ac eraill wneud i oresgyn y rhwystrau:**

- Help i gyfieithu buasai yn ddefnyddiol iawn, mwy na'r 70 gair os yn bosibl, buasai hyn yn sicr yn annog mwy o fusnesau i weithredu yn ddwyieithog
- O ran busnesau technolegol angen i BylG wneud mwy i annog y math hwn o fusnes i ddarparu gwasanaethau dwyieithog a bod yn barod i estyn mwy o gyngor cyffredinol hefyd

- Dim un o'r busnesau yn gyfarwydd hefo'r hyn oedd gan ByIG i'w gynnig felly hyn yn awgrymu fod angen mwy o farchnata ei gwasanaethau, hyn ddim yn cael ei wneud yn ddigonol ar hyn o bryd a lle i wella yma
- Clymu neu wahaniaethu yn amlycach y cymorth sydd gan ByIG a Menter Iaith i'w gynnig i fusnesau
- Neb yn ymwybodol o'r bathodyn 'Siarad Cymraeg' ac angen mwy o hyrwyddo ar hwn. Gofynnwyd a oedd bathodyn Dysgu Cymraeg ar gael?
- Mwy o help hefo costau sefydlu busnes, buasent yn fwy tebygol o wneud defnydd ehangach o'r iaith pe bai mwy o gymorth ariannol ar gael
- Angen sicrhad fod yr iaith maen nhw yn ei ddefnyddio mewn cyfieithiadau yn gywir a bod cysondeb yn y cyfieithiadau, gallai ByIG helpu mwy o ran hyn
- Cyfieithu darnau byr mewn amser byr!
- Help hefo costau mynd i ddisbarthiadau Cymraeg, mae yn gostus iawn i unigolyn neu fusnes i ddilyn y cwrs, buasai hyn yn help mawr
- Un busnes yn arbennig o falch o ddeall fod Termiadur Cymraeg ar y wefan hefo geiriau technegol ac y buasai yn sicr o wneud deunydd o hwn yn y dyfodol hefyd
- Dyfyniad gan y busnes arwyddion - "I tell my customers "If you get 50% grant to do bilingual signs the Welsh doesn't cost you any extra, so you might as well do it"

#### **Cwestiwn 4**

##### **Deunyddiau Iaith Gwaith**

- Y gynulleidfa ddim yn ymwybodol iawn o ddeunyddiau iaith gwaith o gwbl felly angen mwy o waith hyrwyddo ar y rhain yn sicr!
- Dim pwynt defnyddio'r bathodynau yma os nad oedd person Cymraeg o fewn y busnes meddai rhai
- Buasai cael bathodynau "Dwi yn dysgu Cymraeg" o fudd enfawr i rai busnesau
- Buasai yn help mawr i dderbyn cymorth i gael negeseuon ffôn dwyieithog hefo'r ffons "touch tones" yma, buasai hynny yn edrych yn dda ar y busnes ei hun hefyd!
- Busnesau ar y cyfan ddim yn ymwybodol o ble oedd posibl cael gafael ar ddeunyddiau marchnata iaith Gwaith

#### **Cwestiwn 5**

##### **Anghenion hyfforddi**

- Dewis o gyrsiau hyfforddiant Cymraeg yn yr ardal ond nifer ohonynt yn ddrud, er ei bod yn gyrsiau da
- "Drop out rate of Welsh courses is very high indeed within the NHS"
- Nifer ddim yn deall yr angen i godi prisiau mor uchel ar y cyrsiau yn enwedig o ystyried mai nod ByIG yw annog mwy o siaradwyr Cymraeg (dim dealltwriaeth o'r berthynas rhwng ByIG a'r darparwyr)
- Cymeryd gormod o amser ar y cyfan i ddysgu'r iaith Gymraeg ac nid oes gan bobl busnes yr amser hwn i'w neilltuo pob tro. Er nad oedd gan neb

air negyddol i'w ddweud am yr iaith ar y cyfan mae'n cymryd gormod o amser i ddysgu iaith newydd

- Ar y llaw arall mi wnaeth rhai o'r mynychwyr nodi y buasent yn fodlon ystyried gwneud cyrsiau yn yr iaith Gymraeg, felly cymysgedd o atebion yma ar y cyfan!
- Nodwyd yr angen am "conversational Welsh courses: I've done the basics but not really happy to start basic conversations".
- "Would be more likely to go to Welsh courses if I was certain before hand that I'd be at the same level as everybody else on the course"

### **Arall**

- Cyfieithu gwefannau yn broblem gan fod angen talu dwbl y gost ond mi bwyntiwyd allan i'r busnes hwn y gallent trwy ddefnyddio 'Content Management System' wneud arbedion sylweddol ar hyn, ac roedd y busnes yn falch iawn o glywed hyn hefyd!
- Rhai busnesau yn gofyn os y buasent yn medru creu cyswllt o'i gwefan nhw i un ByIG, ac fe gytunwyd y medrai hyn fod o fudd i'r ddwy ochr
- Cytunodd pawb fod strwythur y cyfarfod wedi caniatáu iddyn nhw drafod yr iaith mewn awyrgylch gyfforddus oedd ddim yn fygythiol nad ymwthiol mewn unrhyw ffordd ac roedden nhw yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn
- "I think that with a little more encouragement and support from events like this one that businesses would make greater use of the Welsh language"
- Pawb yn werthfawrogi fod Bwrdd yr iaith Gymraeg wedi trefnu'r grŵp ffocws hwn ac yn falch iawn o'r cyfle i gael lleisio ei barn - pawb yn dweud fod nhw wedi elwa o'r noson.

## **Grŵp Ffocws Ynys Môn Gwesty'r Bull, Llangefni**

Cynhaliwyd y drafodaeth yn Gymraeg

### **Cwestiwn 1**

Y busnesau i gyd oedd yn bresennol yn medru'r Gymraeg felly'r defnydd oedd yn cael ei wneud o'r iaith yn dda iawn ar y cyfan. Hyn yn cael ei wneud drwy amrywiol ffyrdd yn cynnwys ateb ffôn, cardiau busnes, deunyddiau marchnata, arwyddion dwyieithog a defnyddio'r iaith ar lafar yn gyson

Y genhedlaeth ifanc yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn ysgrifenedig a hyn oherwydd nifer o resymau yn cynnwys y ffordd oeddent wedi ei addysgu

Rhai busnesau yn defnyddio llai o Gymraeg gan mae ymwelwyr oedd y cwsmer mwyaf, ond fod yr ymwelwyr yn hoffi clywed yr iaith. Busnes arall gyda thua dwy ran o dair o'r cwsmeriaid yn siarad Cymraeg ond nifer fawr yn llenwi ffurflenni yn Saesneg. Cytunwyd fod manteision i gyflogi staff dwyieithog

Roedd safon cyfieithu yn broblem a themau newydd yn cael ei bathu angen eglurhad. Termau technegol yn anodd i rai, ond cytunwyd fod hyn yn fater o addysg gan fod yr ifanc yn defnyddio mwy o'r termau technegol

Asiantaethau Cyhoeddus ddim bob amser yn gadael i'r busnes ddefnyddio'r Gymraeg a hyn yn peri problem o bryd i'w gilydd-dim ffurflenni dwyieithog ar gael bob amser

Pawb yn cytuno fod gwerth economaidd i ddefnyddio'r Gymraeg, oherwydd bod busnesau yn medru uniaethu hefo'u cwsmeriaid a bod pobl ar yr Ynys yn fwy tebygol o ddefnyddio ei busnes os oeddent yn medru'r Gymraeg ar lafar ond nid yn angenrheidiol os oeddent yn gwneud defnydd o'r iaith ar bapur ac arwyddion

### **Cwestiwn 2**

Y prif rwystrau oedd yn atal busnesau rhag defnyddio'r Gymraeg oedd:

Cost oedd y brif ffactor heb os nac oni bai. Mae costau ychwanegol ar fusnes yn sgîl defnyddio'r iaith oherwydd costau argraffu a hysbysebu yn fwy na dim. Y grant presennol ddim yn ddigon

Cynigwyd y medrid edrych ar y busnesau yn unigol cyn pennu grantiau iddyn nhw, ac y medrid rhoddi grantiau mwy i rai yn sgîl y cyfraniad maen nhw yn ei wneud i'r iaith Gymraeg.

Yr elfen o amser yn rhwystr ymarferol i ddefnyddio'r iaith mewn rhai achosion gan fod lefel amrywiol o ddeallusrwydd o'r iaith. Rhai yn teimlo ei bos yn haws rhoddi rhai cyfarwyddiadau yn uniaith Saesneg i atal unrhyw ddryswch yn sgîl defnyddio'r ddwy iaith

Adroddodd rai busnesau ei bod yn hawdd iawn i fynd i lawr y llwybr o siarad Saesneg hefo'r cwsmer, mae'r Cymro yn fwy tebygol o ddweud "I'm sorry" am ddechrau sgwrs hefo person di-Gymraeg yn hytrach na bod yn bositif

Llawer eto yn fwy hyderus hefo'r iaith ar lafar yn hytrach nac yn ysgrifenedig

Rhai sectorau mae busnesau yn gweithio oddi fewn iddynt ddim yn gofyn am ddefnydd penodol o'r iaith e.e. gwely a brecwast gan amlaf yn denu Saeson felly ychydig iawn o ddefnydd o'r iaith a wneir o fewn y sector honno

### **Cwestiwn 3**

- Mwy o help ariannol oedd yr ymateb unfrydol, oes modd i fusnesau dderbyn hanner y grant maent yn gofyn amdano yn hytrach na'r uchafswm o £1000, mae rhai busnesau angen llawer mwy na hyn i wneud y Gymraeg yn weledol o fewn ei busnesau.
- Dim digon o ymwybyddiaeth o'r hyn oedd gan Fwrdd yr Iaith i'w gynnig ymysg busnesau lleol, buasai llawer mwy o fusnesau yn manteisio ar y gwasanaethau pe baent yn gwybod ei bod yn bodoli yn y lle cyntaf.
- Angen gwasanaethau cyfieithu am ddim gan Byl a gwasanaeth cyflym hefyd

### **Cwestiwn 4**

- Y gynulleidfa ddim yn ymwybodol iawn o ddeunyddiau iaith gwaith felly angen mwy o waith hyrwyddo ar y rhain yn sicr!
- Neb yn keen iawn ar y logos Siarad Cymraeg, gan mai ond lliw ydyn nhw tydi ymwelwyr sydd yn dod i'r ardal ddim yn mynd i fod hefo affliw o syniad beth maen nhw yn ei olygu, felly angen geiriad ar yr arwyddion yma yn sicr
- Roedd llawer o'r grŵp yn gyfarwydd hefo'r ymgyrch "Dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg" ac roedd nifer o'r farn fod hon yn ymgyrch lwyddiannus iawn a bod angen mwy o hyrwyddo hyn, mae hyn yn galluogi mwy o ddefnydd o'r iaith o ddydd i ddydd
- Y grŵp yn credu fod angen i Fwrdd yr Iaith hyrwyddo y tu allan i Gymru i wneud mwy o bobl yn ymwybodol o'r ymgyrch ac i fod yn fwy parod i ddefnyddio'r Gymraeg pe bai cyfle yn dod i wneud hynny
- Ymwelwyr yn aml yn cymeryd yn ganiataol mai Saesneg ydi iaith y busnes, a tydi'r logo lliw ddim yn mynd i helpu dim ar hynny un person yn nodi "mae jyst fatha rhyw logo Orange, dio ddim yn berthnasol i unrhyw beth i'w wneud hefo'r iaith
- Yn fras iawn dim digon o farchnata o'r deunyddiau na'r gwasanaeth yn cael ei wneud. Buasai llawer mwy o ddefnydd o'r iaith pe bai'r rhain yn cael ei marchnata fwy.

### **Cwestiwn 5**

- Y grŵp yn gytun fod digonedd o gyfleon i ddysgu'r Gymraeg yn yr ardal ac na ellid defnyddio hyn fel esgus i beidio â dysgu'r iaith
- Eto'r mater o gost y cyrsiau yn codi, hyn yn ei gwneud yn anodd i bobl fynd ati o ddifrif gan fod gwersi Cymraeg ddim y peth rhataf ac y gallai Bwrdd yr Iaith o bosibl dalu costau busnesau i ddysgu Cymraeg ar yr amod ei bod nhw yn mynychu'r gwersi i gyd yn gychwynnol

## Arall

- I grynhoi mae yn rhaid dweud fod y grŵp hwn wedi siarad llawer iawn am arian a grantiau oedd ar gael ac efallai fod y drafodaeth wedi ffocysu gormod ar hyn yn hytrach na'i bod nhw wedi edrych ar y darlun ehangach. Mae'n rhaid nodi hefyd fod pob un a fynychodd yn siaradwr Cymraeg ac felly fod rhai o'r materion a godwyd yn y grwpiau eraill ddim wedi codi yn y grwp hwn gan ei bod nhw i gyd yn medru'r iaith ar lafar, ond ddim cweit mor hyderus yn ysgrifenedig.

## Grŵp Ffocws Pwllheli Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

Cynhaliwyd y drafodaeth yn Saesneg

### Cwestiwn 1

- Y cyfranwyr yn ddieithriad yn teimlo fod defnydd cryf o'r Gymraeg ymysg busnes yr ardal yn gyffredinol. Tua 85% o fusnesau'r ardal yn defnyddio'r Gymraeg.
- Allweddol gallu defnyddio'r Gymraeg gyda phobl yr ardal. "Tua 80% o'r cleientiaid yn siarad Cymraeg" "lawr i tua 30% yn y Clwb Hwyllo".
- Rhan fwyaf o gwmnïau'r ardal efo staff sy'n medru siarad Cymraeg a does dim trafferthion dod o hyd i siaradwyr Cymraeg.
- Llauer yn defnyddio'r Gymraeg i farchnata mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Rhai yn gwneud defnydd bwriadol o labeli dwyieithog ar gyfer eu cynnyrch, targedu siopau safonol sydd â nawws Gymraeg ar gyfer eu gwerthu.
- Busnesau yn penderfynu defnyddio'r Gymraeg am nifer o resymau yn cynnwys:
  - gwneud synnwyr masnachol/rhesymau economaidd
  - ffitio fewn efo'r ardal, bod yn gwrtais
  - "pwysau" gan bobl yr ardal – neu efallai fod anogaeth yn well gair
  - Teimlad "fyw i chi beidio"
- Llauer mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan fusnesau yn ddiweddar. Unrhyw fusnesau heb arwyddion dwyieithog yn hen fusnesau – sy'n cael eu rhedeg gan siaradwyr Cymraeg!
- "Byddai busnesau newydd sydd ddim yn defnyddio arwyddion dwyieithog yn cael eu ceryddu yn y wasg" yn lleol.
- Mae 'na bobl sydd ddim mor rhugl yn y Saesneg ac mae'n bwysig fod busnesau'r ardal yn medru gwneud iddyn nhw deimlo'n gartrefol - drwy ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

### Cwestiwn 2

Y criw oedd yn bresennol yn cytuno nad oedd llauer o rwystrau ond aethpwyd ymlaen i nodi'r canlynol:

- Pan mae rhywun yn sefydlu busnes mae'r elfen ddwyieithog yn ychwanegol neu ddyblu'r gost e.e. creu gwefannau neu daflenni. Mae 'na 'issue' amser ynghlwm â hyn hefyd
- I bobl busnes di-Gymraeg neu ddysgwyr mae'n anodd bod yn siŵr fod y Gymraeg a ddefnyddir yn addas. Maen nhw ishe bod yn safonol - ond eto ishe fo redeg yn llyfn ac yn debycach i Gymraeg bob dydd.
- Ynghlwm â'r pwynt blaenorol – mae barn siaradwyr Cymraeg lleol yn medru amrywio ynglŷn â beth sydd yn gywir/derbyniol. Cynrychiolydd o'r Clwb Hwyllo yn dweud eu bod bellach yn defnyddio cyfieithwyr safonol yn unig – am y rheswm yma.
- Byddai'n ddefnyddiol medru cael darnau byrion wedi eu cyfieithu yn sydyn. Awgrymwyd fod y gwasanaeth yma ar gael gan ByIG – ond nid oedd neb yn bresennol yn ymwybodol ohono.
- Mae'r gost o gyfieithu pethau yn rhwystr i rai heb os.

- Rhai o'r mynychwyr oedd yn ddysgwyr yn pryderu am hysbysebu yn Gymraeg achos ddim yn siŵr sut byddai nhw'n delio gyda rhywun fyddai'n cysylltu gyda nhw yn Gymraeg. A fydde nhw'n siomedig os byddai nhw'n methu cynnal y sgwrs yn Gymraeg wedyn? Busnesau ymwelwyr yn pryderu tipyn am hyn.
- Cyngor dylunio a chynnwys deunyddiau marchnata dwyieithog. Ishe cael pethau yn edrych yn iawn ac yn ddwyieithog dderbyniol - pryderu am gael o'n anghywir.
- Mae rhai o'r rheolaethau yn rhwystrau e.e. gyda grantiau arwyddion mae'n rhaid i'r arwyddion fod ar y stryd fawr, yn fixed, ayb. Mae angen llawer mwy o hyblygrwydd. Mae rhai busnesau yn rhai teithiol (heb siop) e.e. crefftwyr - a be maen nhw ishe ydi baneri, pop-ups ac arwyddion symudol, neu hysbyseb ar olwyn sbâr cefn modur - ond nid yw'r rhain yn gymwys. Yr un peth yn wir am archebu offer 'symudol' - mae rhai yn fwriadol cadw eu busnesau yn fach i'w rhedeg o'r cartref - a ddim ishe mynd i sefyllfa ffatrioedd. Cyfeiriwyd at e.e. busnes gwneud sebon - oedd ishe archebu 'blender' ac offer arall (offer masnachol ond symudol).
- Dysgwyr yn nodi pryder am ddelio gyda phethau 'technegol o'r busnes' yn Gymraeg. Yn ymwybodol byddai siaradwyr Cymraeg yn dymuno eu trafod yn Gymraeg a bydde nhw yn ffeindio fo'n anodd. Un person yn bresennol yn deall y rhan fwyaf ac yn medru cynnal sgwrsiau yn Gymraeg (siarad Cymraeg gyda'r plant, ayb) ond methu siarad am elfennau technegol o'r busnes yn Gymraeg.
- Cost cyrsiau dysgu Cymraeg i fusnesau £ ac amser.

### Cwestiwn 3

- Helpu gyda chostau sefydlu busnesau yn arbennig. Dyma'r cyfle gorau i ddylanwadu ar agwedd a pholisi ac edrychiad ieithyddol cwmnïau, e.e. cyfieithu dogfennau, gwefannau, sôn am gyngor call, ymarferol ac arian i gynorthwyo.
- Yr un peth yn wir pan mae cwmni eisiau ehangu neu sefydlu is-fusnes.
- Help i sicrhau fod yr iaith maen nhw'n defnyddio mewn cyfieithiadau yn gywir ac yn addas.
- Help i gyfieithu darnau bach yn sydyn.
- Fod cymorth ariannol ar gael ar gyfer deunyddiau marchnata a bod y rheolau yn fwy hyblyg o ran mathau o arwyddion (rhai symudol, baneri, pop-ups, ayb).
- Help gyda chostau cyfieithu pethau sy'n allweddol i ymddangosiad dwyieithog y cwmni.
- Ffordd o sicrhau pobl sy'n hysbysebu yn ddwyieithog fod o'n beth da/derbyniol - hyd yn oed os nad ydynt yn medru delio gyda'r cleientiaid yn Gymraeg wedyn.
- Falle rhaglen gymorth i helpu gyda'r pwynt yma
- Lot mwy o hyblygrwydd gyda'r grantiau sy'n bodoli – er mwyn siwtio busnesau bach
- Cyngor dylunio deunyddiau yn ogystal â chyfraniad ariannol tuag at gynhyrchu.

- Help i ddelio gyda phethau technegol sydd yn unigryw i bob busnes o bosib e.e. os yn gwerthu dodrefn - byddai hyfforddiant/cyngor i gael dysgu'r prif dermau yn fuddiol.

#### **Cwestiwn 4**

- Y gynulleidfa yn ymwybodol iawn o ddeunyddiau iaith gwaith.
- Canmoliaeth i gynrychiolydd o'r fenter iaith dreuliodd awr gydag un busnes a gadael stoc o fathodynau, arwyddion drysau, ayb.
- Nifer ddim yn gwybod lle i gael gafael ar y deunyddiau hyn – er yn gwybod am eu bodolaeth.
- Brwdfrydedd cyffredinol tuag at fodolaeth y math yma o ddeunyddiau.

#### **Cwestiwn 5**

- Dewis helaeth o gyrsiau dysgu Cymraeg i oedolion yn yr ardal. Nifer o ddysgwyr yn y gynulleidfa – yn mynychu cyrsiau Wlpan ayb. Nant Gwrtheyrn hefyd ar gael yn lleol.
- Nodwyd fod rhywun sydd wedi sefydlu busnes yn talu x 3 gwaith yn fwy am gyrsiau dysgu Cymraeg i gymharu â'r sefyllfa pan yn ddi-waith.
- Bwysig fod y cyrsiau yn hyblyg – wahanol adegau o'r dydd, ayb – hyn i weld yn digwydd yn yr ardal.

#### **Arall**

- Ddim yn siŵr os oedd cymorth ariannol ar gael ar gyfer gwahanol bethau – nac yn siŵr ychwaith lle i holi.
- Beirniadaeth o'r system cymorth busnes (Llygad Busnes) - arian yn cyrraedd y sefydliadau i ariannu pobl heb lawer o sgiliau busnes - ond dim cymorth busnes i'r busnesau eu hunain.
- Beirniadaeth lem o Cymad gan un neu ddau - wedi ffonio sawl gwaith ynglŷn â mater busnes/ieithyddol ac wedi gado ffonio 'nôl ond byth yn gwneud.
- Gormod o fiwrocratiaeth ynghlwm â cheisiadau nawdd – 3 pris dyfynbris ar bapur, ayb.
- Y rhai yn bresennol yn werthfawrogol o'r ffaith fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cynnal trafodaethau o'r math yma ac yn cymryd yr amser i holi busnesa go iawn. Tuedd o feddwl fod polisiau yn cael eu llunio tu ôl i ddrysau caeedig swyddfeydd yng Nghaerdydd.
- Y busnesau (na'r bobl) yn bresennol ddim yn nabod ei gilydd, na'i busnesau ac wedi elwa o gymryd rhan yn y digwyddiad.
- Awydd gan rhai i dderbyn adborth am y gwaith yma.

## **Grŵp Ffocws Wrecsam Gwesty'r Ramada, Wrecsam**

Cynhaliwyd y drafodaeth yn Saesneg

### **Cwestiwn 1a**

Ar hyn o bryd dim ond enw'r cwmni sydd yn Gymraeg – a hynny oherwydd diffyg sgiliau yn y cwmni i wneud mwy.

“Dewis o Gymru” yn strapline ar ein labeli i gyd – ond nid ydym wedi mynd yn ddim pellach o ran defnyddio'r Gymraeg.

Dim staff yn siarad Cymraeg - ond ffrindiau sydd yn ei siarad ag sy'n medru helpu'n anffurfiol yn achlysurol.

Dim syniad gan y busnesau faint o'u cwsmeriaid sy'n ddwyieithog er bod y cwmni cyfieithu yn tybio bod mwyafrif eu cwsmeriaid yn ddi-Gymraeg gan fod angen y gwasanaeth arnynt.

Yn Wrecsam mae'r Gymraeg yn dal yn lleiafrif - ond ar gynnydd.

### **Cwestiwn 1b**

Erbyn hyn mae'n wleidyddol gywir i gael Cymraeg ar y label – nid nad yw siaradwyr Cymraeg yn medru darllen Saesneg ond mae fwy i wneud gyda chadw a hyrwyddo'r iaith.

Mae'n fater o wasanaeth hefyd. Rydym yn gwneud cymaint o ymdrech yn lleol i bobl o Wlad Pwyl – dydi hi ond yn iawn ein bod yn gwneud ymdrech gyda'r Gymraeg hefyd – i'r graddau y medrwn o safbwynt ein gallu yn yr iaith.

Fel siaradwr Cymraeg - os ydym yn gweld yr iaith yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd mae yn ein denu i drïo'r cynnyrch. Mae siop Bwylaidd yn Wrecsam ag arwyddion tair-ieithog ac mi es i mewn gan ei fod yn fy nenu i fynd. Defnyddio'r Gymraeg yn signal positif.

Yr unig Gymraeg a ddefnyddir ar hyn o bryd ydi ar y label.

Dydw i ddim yn cydnabod y Gymraeg o gwbl o safbwynt ffurfiol o fewn y cwmni – ddim yn ei anwybyddu ond mae'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn siarad Saesneg at bwrpas materion cyflogaeth etc.

### **Cwestiwn 1c**

Gweld rhywbeth Cymraeg yn ei gwneud yn fwy tebygol i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r gwasanaeth.

Hefyd, mae un cwmni'n gweld cwmni arall yn gwneud ac mae'n creu cystadleuaeth e.e. ym Mhen Llŷn byddai busnes yn sefyll allan petai nhw ddim yn defnyddio'r Gymraeg – “peer pressure”. Ond critical mass yn yr ardal honno sydd ddim yn Wrecsam eto.

Americanwyr wrth eu bodd gyda'r Gymraeg – yr iaith a'i hanes etc.

## **Cwestiwn 2**

Gallu personol gan mai fi yw'r unig berson yn y busnes.

Ariannol - help i argraffu ambell beth - ond mae e cyn lleied ac mae cymaint o bethau eraill i'w sortio fel busnes does dim amser nac amynedd i wneud.

Ar fin ail frandio ac yn bwriadu cynnwys mwy o Gymraeg.

Mater cost yn broblem i bobl. Dydi cyfieithu ddim yn rhad a chynhyrchu arwyddion mwy dwyieithog etc. Angen ymestyn y cynllun grantiau i fusnesau gan Fwrdd yr Iaith. Nifer o fusnesau am wneud mwy o ddefnydd o'r iaith, ond methu ei fforddio.

Y prif issue ydi cost oherwydd petai'r cyllid ar gael byddai gwasanaeth cyfieithu yn medru gofalu am y cyfan – capasiti a gallu unigolyn ddim yn broblem wedyn.

Dim ymwybyddiaeth o grantiau etc. Meddwl bod Llinell Gyswilt BIG yn syniad da! Un person wedi ei ddefnyddio.

Mae popeth yn dod lawr i gost yn y diwedd. Ydw i'n gwario £600 i gyfieithu rhywbeth i leiafrif o gwsmeriaid neu ei roi at rywbeth arall.

## **Cwestiwn 3**

Gwybod am iaith Gwaith ond ddim yn adnabod y brandio newydd. Cofio'r hen groes wyrdd a choch ond ddim wedi adnabod y stwff newydd er wedi sylwi arnynt.

Un ddim yn adnabod y cynllun o gwbl ond yn meddwl ei fod yn syniad arbennig iawn.

Mae'r cynllun yn dderbyniol iawn am fod rhywun yn Wrecsam yn tybio nad yw pobl yn siarad Cymraeg.

## **Cwestiwn 4b**

Fel cynhyrchydd bwyd sydd am fynd i'r Eisteddfod am y tro cyntaf, byddai cael llyfryn cyfieithu o gyfarchion a brawddegau defnyddiol yn fuddiol iawn.

Byddai cyrsiau byrion (undydd) yn syniad da iawn hefyd – croeso a chyfarch.

## **Cwestiwn 4c**

Pwysig iawn

## **Cwestiwn 4d**

Rhywun wrth law yn y sioeau mawr a allai helpu gyda'r iaith e.e. os oes rhywbeth penodol yn codi e.e. gwasanaeth ar y maes i gyfieithu neu gynghori a rhoi ymateb ar fyr-rybudd.

Mae nifer o siaradwyr Cymraeg yn gwerthu mewn sioeau bwyd ond mae pawb yn brysur ac mae'n annheg gofyn iddyn nhw o hyd.

Petai BIG yn bresennol ar y maes falle byddai modd cael rhywun yno yn benodol i helpu gyda chyfieithu.

### **Cwestiwn 5**

Cwrs undydd croeso a chyfarch.

Mae mor neis medru dweud "Bore da" etc ac mae'r ymateb yn hyfryd.

Ymwybyddiaeth iaith hefyd yn elfen o ran creu amgylchedd mwy cydnaws i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chwsmeriaid - ond y drafodaeth yn mynd nôl at bethau megis arwyddion a chyfarch yn hytrach na materion hyder iaith etc.

Mae agweddau at yr iaith wedi newid yn y ddeg mlynedd diwethaf. Mae dal i fod ofn ymateb negyddol ymhlith nifer o siaradwyr Cymraeg.

Ble fydddech chi'n mynd i gael hyfforddiant fel hyn?  
At fy mentor Gwir Farchnata!

Mae marchnata Cymraeg i Oedolion yn awgrymu ei fod ddim ond ar gyfer rhywun sydd am wneud cwrs sylweddol dros flwyddyn – dim byd i rai sydd ddim ond am gael blas o'r iaith.

### **Sylwadau Eraill**

Mae agweddau at yr iaith wedi newid cymaint dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn mae llawer mwy o ewyllys da tuag ati.